Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 29/2015

# Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect Creu Cysylltiadau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

## Gwerthusiad Crynodol

# Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

## GWERTHUSIAD CRYNODOL


## Gareth Williams, Old Bell 3 Cyf


Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.


I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Jackie McDonald,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1193
E-bost: Jackie.McDonald@wales.gsi.gov.uk
http://www.llyw.cymru/ymchwil



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 11 Mehefin 2015
ISBN: 978-1-4734-3751-7


© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tabl cynnwys


CRYNODEB GWEITHREDOL 2

1. CYFLWYNIAD 11
    1.1 Cefndir 11
    1.2 Nod y Gwerthusiad a'r Adroddiad 12
    1.3 Dull 14
    1.4 Strwythur yr Adroddiad 16

2. CYD-DESTUN 17
    2.1 Cyd-destun Polisi 17
    2.2 Prosiect Creu Cysylltiadau'r WCVA 25
    2.3 Model rhesymeg y prosiect 29]
3. CANFYDDIADAU 31
    3.1 Cyflwyniad 31
    3.2 Cynrychiolaeth a Gwybodaeth 31
    *3.2.1 Gweithgareddau* 32
    *3.2.2 Allbynnau* 35
    *3.2.3 Canlyniadau* 36
    3.3 Mewnbwn i Gynllunio Gwasanaethau 37
    *3.3.1 Gweithgareddau* 38
    *3.3.2 Allbynnau* 40
    *3.3.3 Canlyniadau* 43
    3.4 Mewnbwn i Ddarpariaeth Gwasanaethau 46
    *3.4.1 Gweithgareddau* 47
    *3.4.2 Allbynnau* 50
    *3.4.3 Canlyniadau* 51
    3.5 Llais Dinasyddion 54
    *3.5.1 Gweithgareddau* 55
    *3.5.2 Allbynnau* 57
    *3.5.3 Canlyniadau* 57
    3.6 Effeithiau 58
    3.7 Arfer Da 60
    3.8 Rhwystrau 62
    3.9 Rheoli a Chyflenwi'r Prosiect 64
    3.10 Sylwadau ar y Dyfodol 69

4. Casgliadau ac Argymhellion 74

## CRYNODEB GWEITHREDOL

*Cefndir*

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' y WCVA[1].

Roedd prosiect Creu'r Cysylltiadau, a sefydlwyd ym Mehefin 2012 ac a oedd yn llwyr weithredol erbyn Mawrth 2013, yn darparu cyllid ar gyfer swydd(i) ychwanegol ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio i ysgogi a defnyddio cyfraniad y trydydd sector i'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a gaiff ei hybu gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Nod prosiect Creu'r Cysylltiadau oedd meithrin gallu hirdymor y trydydd sector i gyfrannu at y broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn neilltuol i weithredu'r Cynllun Integredig Sengl a ddatblygwyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau oedd:

- gwella parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- cynyddu nifer y cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'r cynnydd ar ddiwygio'r sector cyhoeddus yn ei ardal ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth; a
- chynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Daeth gweithgaredd ar y prosiect i ben ar 31 Rhagfyr 2014, er y cytunwyd ar estyniad o dri mis pellach hyd fis Mawrth 2015 i alluogi'r prosiect i gasglu data

[1] Rhan-ariannir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru fel rhan o brosiect ehangach Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau - a ariannir dan Flaenoriaeth 4 Thema 1 Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

llawn ar allbynnau a chanlyniadau a galluogi trosglwyddo gwaith cyfredol yn llyfn.

Nodau'r gwerthusiad oedd:

1. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar ymgyfraniad y trydydd sector mewn darparu, datblygu ac ailddylunio gwasanaethau cyhoeddus;
2. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar ddylunio, cynllunio a datblygu gwasanaethau cyhoeddus lleol ac os yw hyn wedi sicrhau gwelliant.

Yr adroddiad gwerthuso terfynol hwn yw penllanw'r gwerthusiad ac mae'n adeiladu ar y gwerthusiad o'r llinell sylfaen a'r broses ddechreuol a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2014[2] a gwerthusiad ffurfiannol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014[3].

*Rhaglen Waith*

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2015. Roedd yn cynnwys:

- cyfnod cychwynnol, yn arwain at Raglen Waith derfynol a gytunwyd gan y Grŵp Llywio[4];
- cynnal adolygiad o lenyddiaeth a data yn cynnwys dogfennau polisi allweddol, data'n gysylltiedig â'r trydydd sector yng Nghymru a dogfennau'n cyfeirio'n benodol at brosiect Creu'r Cysylltiadau a diweddaru'r adolygiad polisi ar gyfer y gwerthusiad ffurfiannol a'r gwerthusiad terfynol hwn;
- datblygu model rhesymeg prosiect a chytuno ar hyn gyda'r Grŵp Llywio;

[2] Gweler http://llyw.cymru/statistics-and-research/independent-evaluation-wales-council-voluntary-actions-making-connections-project/?lang=cy
[3] Gweler http://llyw.cymru/statistics-and-research/independent-evaluation-wales-council-voluntary-actions-making-connections-project/?lang=cy
[4] Roedd y Grŵp Llywio yn cynnwys staff rheoli prosiect a gwerthuso'r WCVA; cynrychiolwyr swyddogion Creu'r Cysylltiadau a staff ymchwil a gweithredol Llywodraeth Cymru. Cyfarfu bedair gwaith i gytuno ar y rhaglen waith ac ystyried y tri phrif adroddiad. Cyflwynir ei Gylch Gorchwyl yn yr Atodiad Technegol.

- derbyn ac adolygu data monitro o brosiect Creu'r Cysylltiadau yn ogystal â Chynlluniau Integredig Sengl a chynlluniau gweithredu unigol ac adroddiadau cynnydd Swyddogion Creu'r Cysylltiadau;
- cynnal arolwg byr ar y cyfnod llinell sylfaen o randdeiliaid allweddol Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ardaloedd y rhaglen Cydgyfeirio a hefyd yn Nwyrain Cymru;
- cynnal pecyn trylwyr o waith maes yn ymwneud â phum ardal astudiaeth achos oedd yn cynnwys cyfanswm o gyfweliadau unigol gyda 54 o randdeiliaid, hyd at dair gwaith mewn rhai achosion;
- cynnal nifer fechan o gyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol' a grwpiau gyda swyddogion Creu'r Cysylltiadau ar y cam llinell sylfaen a'r cam gwerthuso terfynol;
- cynnig cyfle yn y gwerthusiad terfynol i Brif Swyddogion Cynghorau Gwirfoddol Sirol gyflwyno atebion ysgrifenedig i holiadur byr a gylchredwyd iddynt am y prosiect: ymatebodd chwe Phrif Swyddog i gyd (un ohonynt o ardal astudiaeth achos).

*Canfyddiadau*

Ychydig o dystiolaeth a welsom o'n hymchwil astudiaethau achos fod rôl y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau lleol fel asiant cyrff sector cyhoeddus yn cynyddu: yn wir, ymddengys yn fwy cyffredinol fod toriadau i'r sector cyhoeddus o leiaf yn y tymor byr yn arwain at ddiddymu cyllid drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth a grantiau i'r trydydd sector, tra na fu cynnydd yn y cyfleoedd i'r rhan fwyaf o gyrff trydydd sector sicrhau contractau ar dâl drwy comisiynu: yn wir, mewn rhai achosion, mae pwysau i ddiogelu swyddi yn y sector cyhoeddus yn arwain at dueddiad i wneud swyddi'n fewnol a arferai gael eu gosod i'r trydydd sector.

Fodd bynnag, mae deuoliaeth rhwng nifer cymharol fach o gyrff trydydd sector mwy, nad ydynt mewn llawer achosion yn ystyried bod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn eu cynrychioli ac sydd mewn sefyllfa cymharol gref i gystadlu am dendrau cyhoeddus - a mwyafrif helaeth y sector.

Mae'n debyg fod cyfleoedd - neu efallai yn fwy cywir heriau - i'r trydydd sector gamu mewn i ddarparu gwasanaethau megis llyfrgelloedd, lle mae'r sector cyhoeddus yn encilio oherwydd na allant mwyach gynnal y lefelau cyllid - yn tyfu, ond mae rhwystredigaeth eang o fewn y sector ar y dybiaeth y galll ddarparu gwasanaethau yn rhatach. Ar yr un pryd, mae'n ddi-os y bu rhai enghreifftiau cadarnhaol o Creu'r Cysylltiadau yn gweithio gyda chymunedau lleol i ymateb i'r heriau hyn.

Ychydig o dystiolaeth sydd fod newidiadau yng nghyswllt dyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrannu at gynyddu cynaliadwyedd y trydydd sector, er bod rhai rhanddeiliaid yn credu fod y newidiadau yn yr amgylchedd cyllido yn arwain rhai sefydliadau i edrych ar y cydbwysedd rhwng staff cyflogedig a staff gwirfoddol a chamu'n ôl o 'broffesiynoli' y sector a fu'n nodwedd dros tua'r 20 mlynedd ddiwethaf.

Er bod swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn rhai ardaloedd yn sicr wedi cyfrannu a chynyddu gweithgaredd hyfforddiant Cynghorau Gwirfoddol Sirol (er yr ymddengys fod hyn yn llai na'r disgwyl, oherwydd fod argaeledd adnoddau eraill a staff wedi canolbwyntio ar ddatblygu sefydliadol o fewn rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol), tanseiliwyd gwerth peth o'r hyfforddiant hwn sydd wedi canolbwyntio ar feithrin gallu i dendro am wasanaethau oherwydd diffyg cyfleoedd i dendro am waith gan y sector cyhoeddus, neu natur ymarfer comisiynu, yn neilltuol ar ran awdurdodau lleol.

Er bod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi rhoi llawer o waith i feithrin perthynas rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r trydydd sector ehangach ar y naill law a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a chyrff sector cyhoeddus ar y llaw arall, mae'n rhaid gofyn cwestiynau am gynaliadwyedd gweithgareddau meithrin perthynas a rhwydweithiau a gweithgareddau eraill swyddogion Creu'r Cysylltiadau tu hwnt i oes y prosiect. Mae strwythurau a phersonél Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi bod (ac yn parhau i fod) yn y pair, a lle sefydlwyd perthnasoedd da mae'n amheus os cânt eu cynnal yn y tymor canol. Yn wir, yn ardal un astudiaeth achos lle'r oedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi gadael y gynnar, a lle adeg ein gwerthusiad ffurfiannol yr

ymddangosai Creu'r Cysylltiadau yn fwyaf llwyddiannus, roedd yn amlwg fod y systemau a'r perthnasoedd a sefydlwyd eisoes wedi gwanhau ar ôl llai na chwe mis.

Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod mewn rhai achosion, o leiaf, fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi llwyddo i ysgogi ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau o gymheiriaid mewn awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill o allu'r trydydd sector i gyfrannu'n greadigol at ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Fel gyda darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, cymharol ychydig o dystiolaeth sydd fod dyluniad a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus (yn neilltuol o amgylch blaenoriaethau Cynlluniau Integredig Sengl) wedi gwella drwy integreiddio mwy ar y trydydd sector, er nad oedd y broblem yma'n ymwneud cymaint ag unrhyw ddiffygion ar ran swyddogion Creu'r Cysylltiadau ond yn hytrach gyda'r diffyg cynnydd tebygol mewn llawer o ardaloedd mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl yn mynd i'r afael â materion manwl dylunio a chynllunio gwasanaethau. Eto, er y byddai'n ymddangos fod enghreifftiau o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn sicrhau enillion bach ond arwyddocaol yn nhermau dull mwy cydweithiol o ddatblygu cynlluniau a phrosiectau penodol, ychydig iawn o dystiolaeth sydd o newid systemig.

Yn olaf, yn nhermau ymgysylltu â dinasyddion wrth sefydlu blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl a dyluniad a darpariaeth gwasanaethau, mae'n glir y bu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn llawer o achosion rôl allweddol wrth hybu gwaith ymgysylltu Byrddau Gwasanaethau Lleol. Yn fwy cyffredinol, er na fu'r holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn gysurus yn gweld eu hunain fel hyrwyddwr naturiol llais dinasyddion, bu gan lawer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau ran ddefnyddiol wrth hwyluso hyfforddiant a datblygu sefydliadol ar gyfer cyrff trydydd sector yn nhermau ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaethau, ac mewn un neu ddau achos, bu'r gwaith i rymuso cymunedau lleol yn ganolog i gyflawni'r prosiect.

Yn gyffredinol, credwn er bod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o achosion wedi ychwanegu gallu oedd ei fawr angen i Gynghorau Gwirfoddol Sirol a chanfod ffyrdd adeiladol o gefnogi cyrff trydydd sector lleol - drwy wella llif gwybodaeth am ddatblygiadau strategol, hwyluso cysylltiadau gyda chyrff sector cyhoeddus, datblygu eu gallu i ymateb i (nifer cymharol fach ) o gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a thrwy gymryd rhan mewn prosiectau ymarferol i ddangos gallu'r trydydd sector i wneud gwahaniaeth - ac er y cafodd y rhan fwyaf o dargedau allbwn eu cyflawni, nid yw'r prosiect yn ei gyfanrwydd mewn gwirionedd wedi sicrhau'r canlyniadau a obeithid.

I raddau helaeth mae hyn fel canlyniad y cyd-destun y gweithredodd y prosiect ynddo, yn neilltuol:

- Y cynnydd aml yn araf o ran symud gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymlaen o ddadansoddi anghenion a dynodi materion i ystyried dyluniad a darpariaeth gwasanaethau a'r ymdeimlad o ddatgysylltiad rhwng y trafodaethau strategol lefel uchel hyn a chomisiynu penderfyniadau;
- Tueddiad cyrff cyhoeddus (efallai yn arbennig awdurdodau lleol) i droi ar i mewn wrth ymateb i bwysau a achosir gan y toriadau mewn cyllid cyhoeddus, i geisio lleihau colledion swyddi drwy wneud gwasanaethau yn fewnol ac i fod yn llai parod i ystyried dulliau mwy arloesol a phersonol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn wyneb pwysau o'r fath;
- Y gostyngiad yng ngallu llawer o gyrff trydydd sector i ymwneud ag agendâu mwy strategol oherwydd effaith toriadau yn eu cyllid eu hunain (ac mewn rhai achosion, gynnydd yn y galw am wasanaethau);
- Yr hyn a ymddengys yn ddryswch ac anghysondeb yn y dull caffael, gyda chyfleoedd cymharol gyfyngedig i gyrff trydydd sector lleol dendro, a llai byth o gyfleoedd iddynt dendro'n llwyddiannus, i ddarparu gwasanaethau;
- Diffyg cyfatebiaeth rhwng disgwyliadau comisiynwyr sector cyhoeddus y gallai defnyddio'r trydydd sector fod yn opsiwn rhad, a barn cyrff

trydydd sector fod gwerth ychwanegol y sector drwy ansawdd a chyd-gynhyrchu, ac nid costau is;

- Y 'malltod cynllunio' yn deillio o'r drafodaeth am ailstrwythuro llywodraeth leol a'r tensiwn rhwng ffocws lleol y rhan fwyaf o Fyrddau Gwasanaethau Lleol a phwysigrwydd cynyddol yr agenda rhanbarthol.

Ond er y gall ffactorau allanol fod i gyfrif am lawer o'r anawsterau a wynebodd brosiect Creu'r Cysylltiadau, credwn hefyd fod dyluniad y prosiect yn wallus:

- Roedd diffyg cyfatebiaeth rhwng maint yr uchelgais a nodwyd yn y Cynllun Busnes ac adnoddau ac amserlenni'r prosiect. Hyd yn oed mewn amgylchiadau llawer mwy ffafriol, mae'n annhebyg y bu erioed yn realistig disgwyl i un swyddog ar radd cymharol isel mewn Cyngor Gwirfoddol Sirol fedru darparu'r ystod gweithgareddau (a hyd yn oed fwy o ganlyniadau) a ragwelwyd;
- Nid oedd y ffocws ar recriwtio staff newydd i fod yn swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd, er yn ddealladwy o safbwynt dangos 'ychwanegedd' y prosiect, o reidrwydd yn cydnabod yn llawn i ba raddau yr oedd materion yn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn rhan allweddol o waith Cynghorau Gwirfoddol Sirol a llawer o'u staff. Golygodd hyn, hyd yn oed lle gweithiodd Creu'r Cysylltiadau yn dda, ei bod yn amhosibl gwahanu effeithiau'r prosiect oddi wrth effeithiau ehangach hyrwyddo'r agenda yma gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol. Lle na weithiodd cystal, cafodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau hi'n anodd diffinio eu rôl ac mewn rhai achosion, ymddengys eu bod ar y cyrion o fewn eu sefydliad eu hunain;
- Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol rôl unigryw yn nhermau cynrychioli'r sector ar lefel leol, nid yw eu sefyllfa mewn unrhyw fodd yn un tu hwnt i ddadl. Yn eironig, efallai, mae'r cyrff hynny sy'n gweithredu ar raddfa fwy, a all eisoes fod yn ymwneud llawer â dylanwadu ar syniadau comisiynwyr ar ddylunio gwasanaethau ac sydd eisoes mewn sefyllfa cymharol dda i sicrhau contractau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a gaiff eu

tendro'n agored, yn tueddu i beidio ystyried fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn eu cynrychioli, a gallant yn wir eu gweld fel cystadleuwyr;

- Gellir gofyn cwestiynau am ffocws y prosiect fel model brig-i-lawr o gynyddu ymgysylltiad y trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, yn neilltuol o gofio'r safbwynt (yr ymddengys y caiff ei fynegi yn y Papur Gwyn diweddar ar Lywodraeth Leol) fod awdurdodau lleol yn neilltuol, ar y lefel uchaf, yn gwrthwynebu'r math o newid diwylliannol sydd ei angen i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Gellid dadlau fod angen dull mwy cydweithiol o weithio o'r gwaelod i fyny;
- Yn nhermau proses, ymddengys y dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a ddefnyddiwyd yn anhyblyg ac wedi golygu llawer iawn o waith.

Gwnawn gyfanswm o wyth argymhelliad, Yn gryno, yr argymhellion yw:

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi Cynghorau Gwirfoddol Sirol i flaenoriaethu eu gwaith yn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau fod adnoddau yn amlwg ar gael o fewn y Grant Seilwaith i gefnogi'r gwaith yma a thrwy sicrhau fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn ymarferol yn rhoi blaenoriaeth addas i'r rôl yma;
- Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod y farn o fewn y sector am y cynnydd cyfyngedig a wnaed yn nhermau'r agenda yma ac ystyried pa fesurau pellach y gellir eu cymryd i gymell awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i gymryd rhan mwy gweithgar, yn neilltuol o gofio cyd-destun pwysau ar y gyllideb. Efallai bod angen trafodaeth mwy sylfaenol ar y cydbwysedd rhwng dulliau gweithredu brig-i-lawr a gwaelod-i-fyny at gynyddu ymgysylltiad y trydydd sector mewn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer hyn;
- Lle'n bosibl, dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol adolygu rolau a chyfrifoldeb eu staff presennol i ddynodi bylchau amlwg (ar ôl Creu'r Cysylltiadau) yn nhermau sicrhau gorchudd digonol is-grwpiau allweddol y Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau eraill a dylent ystyried i ba raddau y gellir defnyddio cynrychiolaeth o'r sector

ehangach (h.y. tu allan i staff Cynghorau Gwirfoddol) i sicrhau gorchudd llawn;

- Lle bynnag sy'n bosibl dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol ddefnyddio'r cyfleoedd a gyflwynir fel canlyniad i'r gwaith ar ddatblygu templed cronfa ddata safonol i Gynghorau Gwirfoddol Sirol wella eu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r trydydd sector o fewn eu hardaloedd;
- Dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol barhau i gynnig hyfforddiant a meithrin gallu yng nghyswllt tendro i sefydliadau sy'n aelodau fel rhan o'u cynnig hyfforddiant creiddiol, gan gronni adnoddau lle'n bosibl, a gyda ffocws cryf parhaus ar drefnu cynlluniau ar y cyd;
- Dylai Llywodraeth Cymru a'r WCVA ystyried os p'un ai ac, os felly, sut y gall fod ymgysylltu cryfach gyda chyrff mwy yn y trydydd sector i ddefnyddio eu mewnbwn i syniadau ar ddyluniad gwasanaethau a sicrhau cysondeb mewn negeseuon o'r sector ehangach i gomisiynwyr sector cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn, gall y WCVA ddymuno ymchwilio'r syniad o God Ymarfer ar gyfer is-gontractio o fewn y sector;
- Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau fod pob corff cyhoeddus wedi ac yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau clir ar arfer caffael da, yn cynnwys yng nghyswllt y canfyddiad fod gwrthdaro diddordeb posibl yn golygu fod mewnbwn trydydd sector mewn dylunio gwasanaethau yn amhriodol. Lle bynnag sy'n bosibl, dylid annog cyrff sector cyhoeddus i gyhoeddi cynlluniau comisiynu blynyddol, gan amlygu cyfleoedd tendro sy'n debygol o fod ar gael;
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd i sicrhau mwy o gydymffurfiaeth ar ran pob corff cyhoeddus gyda'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' y WCVA[5].

Roedd prosiect Creu'r Cysylltiadau, a sefydlwyd ym Mehefin 2012 ac a oedd yn llwyr weithredol erbyn Mawrth 2013, yn darparu cyllid ar gyfer swydd(i) ychwanegol o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio i ysgogi a defnyddio cyfraniad y trydydd sector i'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a gaiff ei hybu gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol.[6]

Gyda'i wreiddiau fel cynnig prosiect neilltuol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) o'r WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, dyfarnwyd tua £2.7 miliwn o gyllid i'r prosiect o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)[7] fel rhan o brosiect ehangach (ac a gymeradwywyd yn flaenorol) gan Lywodraeth Cymru - Prosiect Datblygu a Blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol - a ariannwyd dan Flaenoriaeth 4 Thema 1 Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Gorllewin Cymoedd a'r Cymoedd.[8]

Nod prosiect Creu'r Cysylltiadau oedd ategu'r prosiect ehangach drwy feithrin gallu hirdymor y trydydd sector i gyfrannu at y broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn neilltuol i weithredu'r Cynllun Integredig

[5] Rhan-ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru

[6] Roedd y prosiect yn darparu cyllid ar gyfer un swyddog datblygu prosiect ym mhob un o'r 13 Cyngor Gwirfoddol Sirol a dau yng Nghymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), sy'n weithredol ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, yn ogystal ag adnodd rheoli prosiect canolog (1.9 cyfwerth ag amser-llawn) yn y WCVA ei hunan.

[7] Roedd cyfanswm y cyllid ar gyfer y prosiect yn cynnwys £2.7 miliwn o ESF, £453,352 o arian cyfatebol gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol a £45,788 o arian cyfatebol gan y WCVA.

[8] Defnyddir 'y prosiect' drwy'r adroddiad yma i gyfeirio at elfen y WCVA o'r prosiect ehangach, a'r 'prosiect ehangach' i gyfeirio at Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfanrwydd.

Sengl a ddatblygwyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau oedd:

- gwella parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- cynyddu nifer y cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'r cynnydd ar ddiwygio'r sector cyhoeddus yn eu hardaloedd ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth; a
- chynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus[9].

Daeth y gweithgaredd dan y prosiect i ben ar 31 Rhagfyr 2014, er y cytunwyd ar estyniad o dri mis pellach hyd fis Mawrth 2015 i alluogi'r prosiect i gasglu data'n llawn ar allbynnau a chanlyniadau ac i alluogi trosglwyddo gwaith cyfredol yn llyfn.

Bwriedid i werthusiad y prosiect gefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau wrth benderfynu p'un ai a sut oedd y prosiect yn cyflawni'r amcanion a nodwyd, yn ogystal â rhoi adborth a dysgu cyfredol a fyddai'n ei gwneud yn bosibl gwneud gwelliannau parhaus i'r prosiect.

## 1.2 Nod y Gwerthusiad a'r Adroddiad

Nodau'r gwerthusiad oedd:

1. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar ymgyfraniad y trydydd sector mewn darparu, datblygu ac ailgynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
2. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar ddylunio, cynllunio a datblygu gwasanaethau cyhoeddus lleol ac os yw hyn wedi sicrhau gwelliant.

[9] O Grynodeb y Prosiect a gyflwynwyd i WEFO. Gweler hefyd Adran 2.

Amcanion manwl y gwerthusiad oedd*:*

- edrych sut mae rôl y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau lleol yn newid (e.e. p'un ai yw cwmpas a maint darpariaeth y trydydd sector yn newid);
- ymchwilio sut mae'r cyflenwad a'r galw am wasanaethau gan y trydydd sector wedi newid a sut y bydd hyn yn effeithio ar ei gynaliadwyedd;
- asesu effeithiau'r newidiadau hyn ar gynllunio gweithlu a sgiliau yn y trydydd sector;
- ymchwilio os bydd perthynas ac adeiladu rhwydweithiau a gweithgareddau eraill swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gynaliadwy tu hwnt i oes y Prosiect;
- archwilio os a phryd mae dylanwad y trydydd sector ar bartneriaethau allweddol a'u gweithgareddau yn cynyddu drwy weithredu Creu'r Cysylltiadau;
- asesu os yw dylunio a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus (yn neilltuol o amgylch blaenoriaethau Cynlluniau Integredig Sengl) yn gwella drwy fwy o integreiddio ar trydydd sector;
- archwilio sut y cafodd ymgysylltu â dinasyddion ei gynnwys wrth sefydlu blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl a dylunio a darparu gwasanaethu;
- asesu os yw Creu'r Cysylltiadau wedi sicrhau gwelliannau yn y cyswllt yma.

Yr adroddiad hwn yw'r olaf o dri adroddiad yn deilio o'r gwerthusiad: cyhoeddwyd gwerthusiad llinell sylfaen a phroses ddechreuol yn gynnar yn 2014[10] a gwerthusiad ffurfiannol ym mis Hydref 2014[11]. Fel gwerthusiad crynodol, mae'r adroddiad yma'n anelu rhoi trosolwg o allbynnau a chanlyniadau'r prosiect, y ffordd y gweithredodd a'r rhwystrau a wynebodd, gan dynnu ynghyd y gwaith a wnaethpwyd yn y camau cynharach. Rhoddwyd

[10] Gweler http://llyw.cymru/statistics-and-research/independent-evaluation-wales-council-voluntary-actions-making-connections-project/?lang=cy
[11] Gweler: http://llyw.cymru/statistics-and-research/independent-evaluation-wales-council-voluntary-actions-making-connections-project/?lang=cy

llawer o'r dystiolaeth fanwl o'r pum ardal astudiaeth achos sy'n sylfaen i'r canfyddiadau yn yr adroddiad ffurfiannol ac nid ydym yn ailadrodd hynny yma.

### 1.3 Dull

Cynhaliwyd y rhaglen waith oedd yn sylfaen i'r gwerthusiad rhwng mis Hydref 2013 a mis Chwefror 2015 ac roedd yn cynnwys:

*Ar gyfer yr adroddiad llinell sylfaen:*

- cam cychwynnol, yn arwain at Raglen Waith derfynol a gytunwyd gan y Grŵp Llywio [12] ac yn cynnwys cyfarfod gyda'r tîm a gynhaliodd y gwerthusiad hirdymor o brosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol ehangach Cronfa Gymdeithasol Ewrop[13] i rannu sylwadau a dulliau gweithredu gwaith maes;
- derbyn ac adolygu data monitro o brosiect Creu'r Cysylltiadau, yn ogystal â'r Cynlluniau Integredig Sengl a chynlluniau gweithredu swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau;
- datblygu a defnyddio arolwg byr wedi'i gyfeirio at randdeiliaid allweddol Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio a hefyd yn Nwyrain Cymru;
- cynnal pedwar cyfweliad wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol' a dau grŵp ffocws gyda swyddogion Creu'r Cysylltiadau heb fod yn gweithio yn ardaloedd yr astudiaethau achos;
- cynnal pecyn o waith maes yn gysylltiedig â'r pum ardal astudiaethau achos yn cynnwys ymchwil desg a chyfweliadau wyneb-i-wyneb neu ffôn gyda rhanddeiliaid lleol allweddol;
- cynnal adolygiad ar lenyddiaeth a data yn cynnwys y dogfennau polisi allweddol, data'n gysylltiedig â'r trydydd sector yng Nghymru a dogfennau'n gysylltiedig yn benodol â phrosiect Creu'r Cysylltiadau;

[12] Roedd y Grŵp Llywio yn cynnwys staff rheoli prosiect a gwerthuso y WCVA; cynrychiolwyr swyddogion Creu'r Cysylltiadau a staff ymchwil a gweithredol Llywodraeth Cymru. Cyfarfu bedair gwaith i gytuno ar y rhaglen waith ac ystyried y tri phrif adroddiad. Cyflwynir ei gylch gorchwyl yn yr Atodiad Technegol.

[13] Prifysgol Caerdydd, Shared Intelligence ac IFF Research Cyf.

*Ar gyfer yr adroddiad ffurfiannol:*

- cytuno ar ddiwygio'r dull o gynnal y gwaith maes, gan roi ystyriaeth i anhawster cynnal arolwg ystyrlon meintiol o randdeiliaid o fewn ardaloedd yr astudiaethau achos, oherwydd problemau am sicrhau data cyswllt addas;
- cynnal gwaith maes yn y pum ardal astudiaeth achos. Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau unigol [14] gyda 54 o randdeiliaid[15], yn ogystal ag astudio ystod eang o ddogfennau perthnasol ac, mewn un achos, arsylwi cyfarfod o fforwm perthnasol yn dod â chyrff trydydd sector ynghyd. Rhyngddynt, roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys:
    - pum swyddog Creu'r Cysylltiadau;
    - Prif Swyddogion (neu gyfatebol) pob un o'r pum Cyngor Gwirfoddol Sirol a naw aelod arall o staff Cynghorau Gwirfoddol Sirol;
    - 17 cynrychiolydd cyrff trydydd sector, sydd un ai'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith swyddogion Creu'r Cysylltiadau [16];
    - 14 swyddog Awdurdodau Lleol[17], tri chynrychiolydd Bwrdd Iechyd Lleol ac un cynrychiolydd Awdurdod Heddlu.
- diweddaru'r adolygiad llenyddiaeth i ystyried deunydd polisi allweddol a gyhoeddwyd ers ysgrifennu'r adroddiad llinell sylfaen yn Ionawr;
- adolygu Adroddiad Interim y Gwerthusiad o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol (Mai 2014);

[14] O'r rhain, cynhaliwyd 45 wyneb i wyneb a naw dros y ffôn

[15] Yn cynnwys pedwar a gyfwelwyd yng ngham cyntaf y gwaith maes yn unig.

[16] Roedd y rhain o 15 corff. Byddem yn disgrifio pump o'r cyrff hyn fel rhai bach, tri fel rhai maint canolig a saith fel rhai mawr, yn gweithredu mewn amrywiaeth o feysydd polisi: roedd pedwar yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol, dau gyda phobl hŷn, tri gyda phlant a phobl ifanc, dau gyda thai ac un yr un gyda chyngor dinasyddion, trais domestig, bancio amser ac adfywio ardaloedd.

[17] Roedd y mwyafrif yn gweithio yn Adran y Prif Weithredwr neu debyg, ond roedd dau o Adfywio/Gwasanaethau Amgylcheddol, dau o Wasanaethau Pobl Hŷn ac un o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fwy cyffredinol.

*Ar gyfer yr adroddiad crynodol hwn:*

- cyfrannu at gyfarfod cenedlaethol swyddogion Creu'r Cysylltiadau ym mis Medi 2014 a chynnal tri grŵp ffocws gyda'r swyddogion yn ystod y dydd; cyflwynodd tri swyddog a adawodd eu swyddi cyn y cyfarfod yma eu hatebion i gwestiynau tebyg i'r rhai a drafodwyd yn y grwpiau ffocws mewn ysgrifen cyn iddynt adael;
- diweddaru'r adolygiad llenyddiaeth;
- derbyn a dadansoddi ffurflen chwarterol y prosiect am y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2014 i Lywodraeth Cymru a'r data monitro oedd yn sylfaen i hynny gan bob un o swyddogion Creu'r Cysylltiadau;
- cynnal mwy o waith maes cyfyngedig yn ardaloedd yr astudiaethau achos, yn cynnwys cyfweliadau dros y ffôn gyda swyddogion Creu'r Cysylltiadau (lle'r oeddent yn dal yn y swydd), Prif Swyddogion Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r prif gyswllt o fewn strwythur cefnogaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mhob awdurdod lleol; cynhaliwyd 11 cyfweliad i gyd;
- cynnal cyfweliadau gyda thri rhanddeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru a'r WCVA;
- cynnig cyfle i Brif Swyddogion Cynghorau Gwirfoddol Sirol gyflwyno ymatebion ysgrifenedig i holiadur byr a gylchredwyd iddynt am y prosiect: ymatebodd cyfanswm o chwe Phrif Swyddog (un ohonynt o ardal astudiaeth achos).

### 1.4 Strwythur yr Adroddiad

Yng ngweddill yr adroddiad yma, rydym yn gyntaf yn nodi cefndir y prosiect a'i gyd-destun **(Adran 2)** cyn cyflwyno ein canfyddiadau o'r gwaith maes **(Adran 3)** a rhoi set gryno o gasgliadau ac argymhellion **(Adran 4).**

## 2. CYD-DESTUN

### 2.1 Cyd-destun Polisi [18]

Yn ein hadroddiad llinell sylfaen disgrifiwn sut mae Llywodraeth Cymru am fwy na degawd wedi datblygu dull gweithredu neilltuol a chyson i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar y syniad o 'llais, yn hytrach na dewis' a chydweithio yn hytrach na chystadlu rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Bu creu Byrddau Gwasanaethau Lleol, gydag ymgyfraniad gorfodol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac yn fwy diweddar, gyflwyno Cynlluniau Integredig Sengl y bwriedid iddynt ei gwneud yn bosibl sicrhau symleiddio sylweddol ar weithio partneriaeth, yn rhan hanfodol o'r agenda yma, ac ystyrir hefod fod ymgysylltu â dinasyddion yn allweddol i wella gwasanaethau cyhoeddus. Cydnabuwyd bod gan y trydydd sector ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau y clywir llais defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â defnyddio ei brofiad ei hun i ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau cyhoeddus.

Yn gynyddol, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi tanlinellu pa mor bwysig yw hi fod y sector cyhoeddus yn gwneud mwy o ddefnydd o'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus blaengar, gyda ffocws cryf ar ataliaeth ac ymyriad cynnar fel rhan o 'economi cymysg'[19]. Ar y cyd â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi annog y trydydd sector, yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus, i symud ymaith o ddiwylliant o ddibyniaeth ar grantiau a choleddu menter gymdeithasol: ystyrir bod hyn yn galw am fwy o gydweithio o fewn y sector, gyda'r WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol â rôl gefnogi bwysig yn y cyswllt hwn.

---

[18] Mae'r Adroddiadau Gwerthuso Llinell Sylfaen a Ffurfiannol yn cynnwys dadansoddiad llawnach o'r cyd-destun polisi cyn Gorffennaf 2014.

[19] Er enghraifft, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym Mai 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo datblygu mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth ac ataliol o fewn eu hardaloedd; ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio a gweithredu gwasanaethau gofal; ac argaeledd gwasanaethau gofal a ddarperir gan gyrff yn y trydydd sector.

Mae'r Cynllun Trydydd Sector newydd, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2014, yn ail-gadarnhau fod mewnbwn i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn un o swyddogaethau craidd Cynghorau Gwirfoddol Sirol y bwriedir i gyllid Llywodraeth Cymru ei gefnogi. Mae hefyd yn ymrwymo cefnogaeth barhaus i'r WCVA fel y corff seilwaith cenedlaethol, gyda chyfrifoldebau'n cynnwys rheoli'r Grant Seilwaith (sy'n ariannu Cynghorau Gwirfoddol Sirol) ac yn ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal, defnyddio a hyrwyddo'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector [20].

Er bod agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hyd yma wedi canolbwyntio ar lefel awdurdodau lleol unigol (er y bu peth arbrofi mewn rhai ardaloedd gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol a/neu Gynlluniau Integredig Sengl yn cwmpasu dwy ardal awdurdod lleol gyfagos), bu Llywodraeth Cymru yn gynyddol awyddus i annog cydweithio rhanbarthol. Mae ymchwil i weithio partneriaeth yn awgrymu fod pwysau ariannol yn dilyn yr argyfwng economaidd yn gwthio awdurdodau lleol yn gynyddol tuag at bartneriaethau cyfryngol, a gynlluniwyd i ostwng costau (yn aml yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol ar draws ffiniau) yn hytrach nag ar bartneriaethau lle mae'r ffocws ar ymgysylltu â dinasyddion a phersonoleiddio gwasanaethau.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fel y gweithredwyd prosiect Creu'r Cysylltiadau, mae datblygiad sylweddol wedi parhau yn agenda Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn, yn deillio'n bennaf o'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Lleol, a gadeiriwyd gan Syr Paul Williams, a sefydlwyd yn Ebrill 2013 ac a adroddodd yn Ionawr 2014.

Mae adroddiad y Comisiwn yn cymeradwyo cyfeiriad taith Llywodraeth Cymru yn nhermau gweithio partneriaeth a chynyddu'r ymgysylltu â'r trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, ond yn awgrymu'n gryf mai cymharol ychydig o gynnydd a wnaed a bod llawer o waith ar ôl. Awgrymodd y Comisiwn, er y croesewid cadarnhau gweithio partneriaeth ar y lefel leol drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol mewn egwyddor, mai ychydig o

[20] Cynllun y Trydydd Sector, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014 t. 5

dystiolaeth oedd y bu'r cynnydd hyd yma yn fwy na chyfyngedig ac ysbeidiol, heb fawr o dystiolaeth y cafodd cydweithio unrhyw effaith ar safonau gwasanaeth neu sicrhau canlyniadau.

Galwodd y Comisiwn am 'newid sylweddol mewn prosesau llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus'[21], yn cynnwys ad-drefnu llywodraeth leol a newidiadau sylweddol yn niwylliant a dull gweithredu darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys mynnu fod angen ffocws llawer cliriach ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, fydd yn galw am weithio traws-sector ac arweinyddiaeth gref, ac ar fodelau darpariaeth newydd sydd â'u ffocws ar ymyriad cynnar i lacio pwysau galw ac yn seiliedig ar 'gydweithrediad ystyrlon ar draws sectorau, sefydliadau a ffiniau, gyda chyd-gynhyrchu gwasanaethau yn nodwedd allweddol wrth wneud hynny'[22].

Mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau bapur ym mis Gorffennaf 2014[23], gan dderbyn yn fras brif ganfyddiadau'r Comisiwn. Mae'r cyntaf o'r rhain – *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru* – yn nodi agenda diwygio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ‘gwella llesiant pobl ledled Cymru nawr ac yn y dyfodol'[24].

Mae'r papur yn nodi gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sydd - yn unol â pholisi cynharach Llywodraeth Cymru - yn tanlinellu bod ‘angen i wasanaethau cyhoeddus gael eu darparu'n fwyfwy **gyda** phobl yn hytrach nag **i** bobl ... cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, gan gydnabod cryfderau pobl ac addasu gwasanaethau'n briodol'[25].

[21] Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Cryno,, t.2
[22] Ibid., t.12
[23] Ynghyd â thrydydd papur yn trafod cynyddu pwerau ar gyfer Llywodraeth ddatganoledig Cymru.
[24] Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pobl Cymru, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2014, t.7
[25] Ibid., t.10

Yn y cyd-destun yma, mae'r papur yn ymrwymo 'parhau i weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector a thu hwnt, i'r perwyl hwn'[26].

Roedd yr ail bapur, *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Cymru* yn ddogfen ymgynghori oedd â ffocws culach ar lywodraeth leol Cymru gyda dyddiad cau ar gyfer ymatebion o 1 Hydref 2014. Wrth gymeradwyo galwad y Comisiwn am ad-drefnu llywodraeth leol, gwnaeth yn glir farn Llywodraeth Cymru fod angen ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru ond dadlau nad oedd digon o amser i basio deddfwriaeth cyn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mai 2016 tra'n addo cyhoeddi drafft Fil ar gyfer ymgynghori yn hydref 2015[27].

Yn dilyn hyn, cyflwynwyd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 26 Ionawr 2015. Mae'r Bil yn nodi'r prif ddulliau ar gyfer sicrhau ad-drefnu llywodraeth leol drwy uno awdurdodau lleol presennol, ac yn fwy penodol yn darparu ar gyfer uno gwirfoddol rhwng awdurdodau lleol ar sail y cynigion a wnaed erbyn mis Tachwedd 2014, lle mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol [28]. Mae'r Bil hefyd yn cyhoeddi'r bwriad i gyflwyno drafft ddeddfwriaeth bellach yn hydref 2015 yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ar uno heb fod yn wirfoddol, er gyda'r amod mai dim ond ar ôl etholiadau Mai 2016 i'r Cynulliad Cenedlaethol yr ystyrid y ddeddfwriaeth[29].

Fodd bynnag, mae elfennau'r Bil presennol sy'n caniatáu uno gwirfoddol yn amherthnasol i raddau helaeth oherwydd cyhoeddiad Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, nad oedd wedi ei ddarbwyllo am ragoriaeth unrhyw un o'r tri achos ar gyfer uno gwirfoddol a wnaed yn hydref 2014 (Conwy a Sir Ddinbych; Pen-y-bont ar Ogwr; a Blaenau Gwent a Thorfaen)[30].

---

[26] Ibid.
[27] Ibid., tt.24 - 25
[28] Bil Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol (Llywodraeth Cymru, 2014) tt 8-9
[29] Ibid., t. 9
[30] Gweler Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Uno Gwirfoddol: Diweddariad ar Ddatganiadau Diddordeb a Dderbyniwyd, 27 Ionawr 2015:

Yn fwy diweddar fyth, ym mis Chwefror 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn pellach ar ddiwygio llywodraeth leol: *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn: Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.*

Mae'r Papur Gwyn yn nodi rhaglen uchelgeisiol iawn o ddiwygio, gan ganolbwyntio i raddau helaeth ar y newid diwylliant y mae'n dymuno ei weld mewn llywodraeth leol, yn hytrach na mater culach uno.

O Ragair y Gweinidog - gyda'i bwyslais ar egwyddorion cydweithio[31] – mae'r Papur Gwyn yn cynnwys llawer sy'n uniongyrchol berthnasol i'r nodau y mae Creu'r Cysylltiadau yn anelu eu cyflawni.

Mae'n dadlau mai rhan allweddol o'r her ddemocrataidd i awdurdodau lleol 'yw gweld mai eu diben craidd yw adeiladu cyfalaf cymdeithasol, hynny yw grymuso cymunedau a sicrhau cydnerthedd cymunedau' ac mai 'diben ein diwygiadau arfaethedig yw symud penderfyniadau'n nes at bobl Cymru yn eu cymunedau lleol, grymuso pobl leol i sicrhau gwasanaethau gwell a chryfhau gwaith ymgysylltu â chymunedau wrth wneud penderfyniadau'[32].

Mae'n hybu pwysigrwydd cynnwys y trydydd sector wrth gynllunio gwasanaethau, a adeiladwyd o amgylch anghenion unigolion a chymunedau:

> 'Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cydnabuwyd yn gynyddol bod angen i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, os ydym am deilwra gwasanaethau o amgylch unigolion, gydweithio â'i gilydd a chydweithio â darparwyr o wasanaethau eraill a'r trydydd sector, gan chwalu rhwystrau diangen a rhoi'r gorau i weithio ar wahân i'w gilydd, fel sydd wedi digwydd yn draddodiadol'[33].

---

http://www.assembly.wales/ministerial%20statements%20documents/voluntary%20mergers%20update%20on%20expressions%20of%20interest%20received/dat20150127-s.pdf

[31] t. vi

[32] Ibid., t. 6

[33] Ibid., t. 14

Mae'n ymrwymo Llywodraeth Cymru yn glir i egwyddorion eang ymgysylltu â dinasyddion:

> ‘Rhaid i Gynghorau gweithredol fod yn weithredwyr newid mewn cymunedau, sy'n cynorthwyo ac yn galluogi cymunedau i wneud mwy drostynt eu hunain ... Ceir consensws cynyddol bod dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar ansawdd y berthynas rhwng darparwyr gwasanaeth a phobl leol ac rydym yn cytuno â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y dylem fod yn *"rhoi pobl yn y canol",* gan drin pobl a chymunedau'n gyfartal wrth ddylunio a darparu ... dangosodd yr ymchwil yn glir y gallwn ac y dylem gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, y bobl sy'n eu cynorthwyo a staff rheng flaen ym mhob cam: wrth flaenoriaethu, comisiynu, dylunio, darparu ac asesu gwasanaethau. Nid oes a wnelo hyn ag ymgynghori.[34]’

Yn ogystal ag ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau cymunedol wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, mae'r Papur Gwyn hefyd yn hyrwyddo eu bod yn ymwneud yn agosach â'r swyddogaethau craffu o fewn awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol gan gredu y dylent gael eu cryfhau'n sylweddol[35].

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylai sefydliadau cymunedol - a ddiffinir fel ‘mudiadau'r sector gwirfoddol, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a Chynghorau Cymuned ... [sy'n] bodloni rhai safonau o ran eu trefniadaeth a'u haelodaeth, a fyddai'n cynnwys bod â nodau a dibenion clir sy'n ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgycheddol y gymuned'[36] - fod â hawl nid yn unig i symbylu trosglwyddo asedau cymunedol segur i'w hunain ond hefyd symbylu ymgysylltu mewn gwasanaeth:

> ‘Os yw corff cymunedol ... yn credu y gallai helpu i wella gwasanaeth, bydd yn gallu cyflwyno cais i'r Awdurdod yn egluro sut y mae'n credu y gallai helpu i wella'r gwasanaeth hwnnw. Byddai’n ofynnol i'r Awdurdod

[34] Ibid., t.46
[35] Ibid., t. 79
[36] Ibid., t. 64

> Lleol ymateb yn brydlon ac ymgysylltu'n weithredol â'r corff cymunedol er mwyn symud y gwaith yn ei flaen, oni bai bod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny ... Bydd hynny'n darparu llwybr ffurfiol a fydd yn galluogi cymunedau i weithio gydag Awdurdodau Lleol, gan gyfuno profiad a dealltwriaeth defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau ag arbenigedd proffesiynol [37].

Gallai hawl o'r fath hefyd goleddu cynigion ar gyfer dod yn gyfrifol am wasanaeth eu hunain:

> 'Gallai corff cymunedol gynnig ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu'r gwasanaeth ei hun, cyhyd â bod ganddo'r capasiti a'r gallu angenrheidiol. Pe bai'r Awdurdod Lleol yn cytuno, byddai hynny wedyn yn sbarduno proses gaffael briodol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau[38]'.

Er bod y Papur Gwyn yn cynnwys llawer sy'n gadarnhaol iawn o safbwynt agenda Creu'r Cysylltiadau - er ar bwynt sy'n rhy hwyr i roi hwb i'r prosiect ei hunan - mae rhai awgrymiadau y gall fod llai o groeso iddynt. Mae hyn yn cynnwys cynnig i ymlacio rhai o'r rheoliadau contractio allan er mwyn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau lleol ar sut i ddarparu gwasanaethau, yn cynnwys 'mewnoli' h.y darparu pethau'n fewnol a arferai gael eu darparu'n allanol [39].

Hefyd efallai'n ddadleuol yw cynnig y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi fframwaith deddfwriaethol ar waith yn gorfodi awdurdodau lleol i sefydlu pwyllgorau ardal 'a arweinir gan Aelodau Etholedig yn fodel o lywodraethu cymunedol y gellir ac y dylid ei fabwysiadu gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru'. Er yn y pwyllgorau hyn, 'rhaid hefyd i Aelodau Etholedig rannu grym â'u cymunedau ... oherwydd nad ydym o'r farn fod democratiaeth gynrychiolaeth gyfranogol a democratiaeth gyfranogol yn annibynnol ar ei gilydd'[40], gellid credu fod hyn yn cynnwys bygythiad yn ogystal ag addewid, er enghraifft i ymddiriedolaethau datblygu cymunedol sydd wedi ennill eu plwyf:

[37] Ibid., t.57
[38] Ibid.
[39] Ibid., t. 22 a t.55
[40] Ibid., t. 49

> ‘Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod cyfleoedd pellach o bwys ar gael i symleiddio dulliau o weithio mewn partneriaeth ar lefel leol a sicrhau bod hynny'n dod dan reolaeth Aelodau Etholedig. Mae hon yn agenda y dylai Awdurdodau Lleol weithredu'n ddiwyd i'w symud yn ei blaen.'[41]

Ochr yn ochr â chyflwyno cynigion deddfwriaethol yn ymwneud â diwygio llywodraeth leol, bu Llywodraeth Cymru hefyd yn symud ymlaen gyda'i chynigion i roi gweithio partneriaeth lleol ar sail statudol, drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2014 ac sy'n mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol ar hyn o bryd.

Er bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn eang, yn cynnwys yn hanfodol gyflwyno darpariaethau ar gyfer pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i osod a monitro perfformiad yn erbyn amcanion llesiant eraill, mae Rhan 4 y Bil yn cyfeirio'n benodol at roi'r trefniadau partneriaeth sydd gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol ar hyn o bryd ar sail statudol,. Yn neilltuol, mae'r Bwrdd yn ei gwneud yn ofynnol i:

- Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, yn cynnwys aelodaeth greiddiol o'r awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, yr awdurdod Tân ac Achub perthnasol a Cyfoeth Naturiol Cymru, ond gyda gofyniad i'r Bwrdd hefyd wahodd Gweinidogion Cymru, y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yr ardal Heddlu berthnasol, cynrychiolydd darparydd perthnasol y Gwasanaethau Prawf, a chorff yn cynrychioli mudiadau gwirfoddol yr ardal[42];
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fod yn agored i graffu gan Bwyllgor(au) Trosolwg a Chraffu yr awdurdod lleol perthnasol;[43]
- Nod pob Bwrdd yw 'gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'[44];

[41] Ibid., t.50
[42] Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014, Rhan 4, Pennod 1
[43] Ibid.

- Pob Bwrdd i baratoi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal, ar sail ymgynghoriad eang (yn cynnwys gyda ‘unrhyw fudiad gwirfoddol perthnasol y mae'r bwrdd yn ei ystyried yn briodol' a 'cynrychiolwyr personau sy'n preswylio yn ei ardal'), a pharatoi Cynllun Llesiant lleol (yn ymarferol yn olynu'r Cynllun Integredig Sengl), hefyd ar sail ymgynghoriad eang, gan nodi amcanion ar gyfer cyflawni'r brif nod a manylion camau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion hyn [45];
- Pob Bwrdd, wrth osod amcanion, i weithredu egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydbwyso 'anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor' a drwy gymryd dull gweithredu integredig, yn cynnwys ystyried sut y gallai ei weithredoedd effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill [46];
- Pob Bwrdd, wrth ddatblygu ei Gynllun Llesiant i ofyn am ac ymgynghori cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a sefydlwyd dan Ran 3 y Bil[47];
- Pob Bwrdd i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gynnydd ar yr amcanion a gyflwynir yn ei Gynllun Llesiant[48].

Mae darpariaeth yn y Bil hefyd i ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus uno ar sail wirfoddol, cyn belled â'u bod ill dau'n ymwneud â'r un Bwrdd Iechyd Lleol (a heb fod yn ymwneud â mwy nag un Bwrdd Gwasanaeth Lleol) neu gydweithio mewn unrhyw ffordd y dymunant, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru i gyfarwyddo Byrddau i gydweithio[49].

## 2.2 Prosiect Creu'r Cysylltiadau y WCVA[50]

Mae gwreiddiau prosiect Creu'r Cysylltiadau yn deillio o gynnig prosiect i WEFO gan y WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol am gyfnod prosiect pum

44 Ibid., Rhan 4, Pennod 2
45 Ibid.
46 Ibid.
47 Ibid.
48 Ibid.
49 Ibid.
50 Gweler yr Adroddiad Llinell Sylfaen i gael adroddiad llawnach

mlynedd rhwng 2010-2015 oedd â'r nod o ddarparu ystod eang o gefnogaeth i weithgareddau'r trydydd sector (gwirfoddol a chymunedol) wrth ddarparu gweithgareddau blaenoriaeth eu Byrddau Gwasanaethau Lleol perthnasol a grwpiau cynllunio gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig, a galluogi'r WCVA i roi cefnogaeth a chyngor strategol i ategu gwaith y Cynghorau Gwirfoddol Sirol[51].

Ar gais WEFO, fodd bynnag, cynhwyswyd Creu'r Cysylltiadau fel elfen neilltuol o fewn prosiect ehangach Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau: ym mis Rhagfyr 2011 cymeradwyodd WEFO Gynllun Busnes diwygiedig yn darparu ar gyfer prosiect £3.2 miliwn yn rhedeg hyd fis Mawrth 2015.

Dywedwyd mai prif nod y prosiect oedd cryfhau gallu ymgyfraniad/cyfranogiad y trydydd sector drwy'r cynghorau gwirfoddol sirol mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol a grwpiau eraill yn cynllunio gwasanaethau cyhoeddus, gan hefyd gyfrannu at dri nod arall y prosiect ehangach[52].

Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau yw:

- cynyddu parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- cynyddu nifer cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a chynnydd diwygio sector cyhoeddus yn ei ardal ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaethau; a

[51] Drafft Gynllun Busnes f.3 WCVA (2010), .t.3

[52] Ibid, Para. 1.2: y nodau ehangach hyn yw datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol ymhellach i fod yn seilwaith cefnogaeth a darparu cynaliadwy; cydlynu themâu generig neu gyffredin Byrddau Gwasanaethau Lleol i ostwng dyblygu ac annog rhannu dysgu, a chyflymu gweithredu prosiectau newidiadau ar y cyd - mewn siroedd unigol ar draws ffiniau Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sail ranbarthol neu is-ranbarthol neu fel cynlluniau peilot ar themâu cyffredin.

- chynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau'n effeithio ar gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus[53].

Ceisiodd wneud hyn drwy ariannu un swyddog datblygu prosiect ym mhob un o'r 13 Cyngor Gwirfoddol Sirol a dau yn GAVO, sy'n gweithredu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, yn ogystal ag adnodd rheoli prosiect canolig (1.9 cyfwerth ag amser llawn) yn y WCVA ei hun.

Roedd y disgrifiad swydd enghreifftiol ar gyfer Swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn nodi'r dyletswyddau canlynol:

- creu cyfleoedd ar gyfer dialog rhwng rhwydweithiau a grwpiau lleol, a chynllunwyr gwasanaethau a rheolwyr drwy gyflwyniadau mewn cyfarfodydd rhwydwaith;
- datblygu rôl grwpiau perthnasol yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth;
- rhoi gwybodaeth (e-friffiadau, gwybodaeth gwefan, erthyglau cylchlythyr, papurau gwybodaeth) am ddatblygiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, a chyfleoedd i gymryd rhan;
- trefnu digwyddiadau ymgynghori a gweithgareddau i alluogi dinasyddion lleol i ymwneud â chynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
- sicrhau y caiff barn grwpiau ar y cyrion a grwpiau cydraddoldeb eu cynnwys yng ngwaith y prosiect;
- cefnogi cyrff trydydd sector i ddatblygu dulliau effeithlon ar gyfer ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaeth;
- gweithio gyda phartneriaid sector cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth ac annog defnyddio dulliau cynllunio cyfranogol;
- cynorthwyo rhwydweithiau a fforymau trydydd sector i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
- cefnogi a hyfforddi cynrychiolwyr trydydd sector i'w galluogi i ymgysylltu'n effeithlon gyda grwpiau cynllunio gwasanaethau cyhoeddus;

[53] O Grynodeb y Prosiect fel y'i cyflwynwyd i WEFO.

- cynrychioli'r trydydd sector ar dimau cyd-gynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
- rhoi cyngor a help i ddarparwyr gwasanaeth posibl yn y trydydd sector;
- cynorthwyo darparwyr gwasanaethau trydydd sector i fabwysiadu neu wella polisïau cyfle cyfartal ac amgylcheddol;
- cynorthwyo darparwyr gwasanaeth trydydd sector i sefydlu mentrau neu wasanaethau ar y cyd.

Roedd y swyddogion i gael rheolwr llinell o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol ond byddent hefyd yn gweithio gyda WCVA i sicrhau cyflenwi'r prosiect[54]. Fodd bynnag, WCVA oedd cyd noddwr y prosiect, yn gyfrifol dan Femorandwm Dealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru am reoli'r prosiect.

Mae'r dull rheoli yn seiliedig ar y model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, gyda phob swyddog wedi datblygu cynllun gweithredu unigol yn seiliedig o amgylch pum canlyniad allweddol y prosiect:

- gwella parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- cynyddu nifer y cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- y trydydd sector yn fwy gwybodus;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau'n effeithio ar ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Caiff y targedau ffurfiol ar gyfer elfen WCVA y prosiect fel y'u cytunwyd gan WEFO eu nodi yn Nhabl 2.1:

[54] Ibid., Para 8.1

*Tabl 2.1: Targedau a gytunwyd gyda WEFO*

| Allbwn | Nifer |
|---|---|
| Cynlluniau lledaenu | 15 |
| Cynlluniau i gefnogi datblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol | 1 |
| Trefniadau cydweithio gyda chyrff trydydd sector | 13 |
| Lleoedd ar secondiad | 12 |
| Trefniadau cydweithio o fewn y trydydd sector neu rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus a'r sector preifat | 30 |
| Cyrff yn mabwysiadu neu'n gwella systemau amgylcheddol | 15 |
| Cyrff yn mabwysiadu neu'n gwella systemau monitro cydraddoldeb | 15 |

Gosodwyd cyllideb o £3,260,746 ar gyfer y prosiect, gyda £1,930,036 (59%) o hynny yn gyfraniad o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gyda £831,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a £499,000 arall gan y WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol.

## 2.3 Model rhesymeg y prosiect

Yn seiliedig ar yr uchod, a gwybodaeth a gafwyd o'r gwaith maes dechreuol roedd yn bosibl llunio model yn amlinellu'r rhesymeg sy'n sail i'r prosiect. Dangosir hyn yn Ffigur 2.2 ar y dudalen nesaf.

| Mewnbynnau/ Adnoddau | Gweithgareddau | Allbynnau | Canlyniadau | Effaith |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| 15 swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol<br><br>Rheolaeth llinell gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol<br><br>1.9 o staff rheoli prosiect cyfwerth ag amser llawn yn y WCVA<br><br>Cefnogaeth rheoli prosiect gan Lywodraeth Cymru | | | | Symud tuag at ymyriadau cynnar yn gostwng yr angen am wasanaethau aciwt<br><br>Gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn cael eu dylunio'n well a'u darparu'n fwy effeithlon<br><br>Trydydd sector mwy cynaliadwy |
| | **Cynrychiolaeth a gwybodaeth** | | | |
| | Sicrhau cynrychiolaeth i'r sector ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a grwpiau allweddol<br><br>Rhoi gwybodaeth ar ddatblygiadau gwasanaethau cyhoeddus i gyrff trydydd sector | Cynlluniau a chynnyrch lledaenu<br><br>Cynlluniau i gefnogi datblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol | Y trydydd sector yn fwy gwybodus | |
| | **Mewnbwn i gynllunio gwasanaethau** | | | |
| | Hwyluso mewnbwn gan y trydydd sector i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus (drwy drefnu cysylltiadau)<br><br>Hyfforddiant i alluogi cyrff trydydd sector i gymryd rhan effeithlon mewn cynllunio gwasanaethau | Trefniadau cydweithio rhwng y sector cyhoeddus/trydydd sector<br><br>Secondiadau rhwng y trydydd sector/sector cyhoeddus<br><br>Cyrff a hyfforddwyd mewn cynllunio gwasanaethau | Cynnydd yng ngallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus | |
| | **Mewnbwn i ddarparu gwasanaethau** | | | |
| | Cyngor a help i ddarparwyr arfaethedig trydydd sector<br><br>Hyfforddiant/cefnogaeth i sicrhau y gall cyrff trydydd sector dendro (cyfle cyfartal, polisïau amgylcheddol ac ati)<br><br>Cefnogi/trefnu mentrau ar y cyd rhwng cyrff trydydd sector | Hyfforddi/cefnogi sefydliadau i gyrraedd safonau caffaeliad<br><br>Trefniadau cydweithio o fewn y trydydd sector | Cyrff trydydd sector yn fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd<br><br>Cynnydd yn nifer y cyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio | |
| | **Llais y dinesydd** | | | |
| | Trefnu digwyddiadau/gweithgareddau i alluogi dinasyddion i gymryd rhan mewn cynllunio gwasanaethau cyhoeddus<br><br>Cefnogi grwpiau defnyddwyr gwasanaeth i roi mewnbwn i gynllunio gwas. cyhoeddus<br><br>Cefnogi cyrff trydydd sector i ymgysylltu'n effeithlon gyda defnyddwyr gwasanaeth<br><br>Gweithio gyda'r sector cyhoeddus i annog dulliau cynllunio cyfranogol | Trefnu/mynychu digwyddiadau ymgynghori<br><br>Hyfforddi cyrff (trydydd sector/sector cyhoeddus) mewn ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth/cynllunio cyfranogol | Cynyddu gallu'r trydydd sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth | |

# 3. CANFYDDIADAU

## 3.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran yma, adroddwn ar ein canfyddiadau o'r gwaith maes a gynhaliwyd ar hyd y gwerthusiad, yn ogystal ag adolygiad desg o ddeunyddiau eraill, yn arbennig fanylion monitro o'r prosiect. Nid ydym yn ailadrodd tystiolaeth fwy manwl a nodir yn yr adroddiadau cynharach, yn neilltuol y gwerthusiad ffurfiannol [55], ond yn hytrach canolbwyntiwn ar grynhoi'r negeseuon o'r adroddiadau hynny yng nghyd-destun y datblygiadau yn chwe mis olaf y cam cyflenwi'r prosiect.

Strwythurwyd yr Adran yma o amgylch y model rhesymeg prosiect y gwnaethom ei ddatblygu ar gyfer y prosiect (gweler Adran 2.2 uchod). Rydym felly'n adrodd yn eu tro ar y pedwar maes thematig y disgwylid i'r prosiect ganolbwyntio arnynt sef: cynrychiolaeth a gwybodaeth (Adran 3.2); mewnbwn i gynllunio gwasanaeth (Adran 3.3); mewnbwn i ddarparu gwasanaethau (Adran 3.4); a llais y dinesydd (Adran 3.5). Ym mhob un o'r adrannau hyn ystyriwn y gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau perthnasol. Ar ôl yr isadrannau hyn, ystyriwn dystiolaeth ar effaith (Adran 3.6), amlygu elfennau arfer da a alluogodd y prosiect i gyflawni (Adran 3.7) a'r rhwystrau a gafwyd (Adran 3.8). Yn olaf (yn Adran 3.9) ystyriwn strwythurau a phrosesau rheoli prosiect cyn (yn Adran 3.10) adrodd ar farn rhanddeiliaid ar anghenion a threfniadau ar gyfer y dyfodol.

## 3.2 Cynrychiolaeth a Gwybodaeth

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Roedd cynrychiolaeth a gwybodaeth yn elfen allweddol yng ngwaith y rhan fwyaf o swyddogion Creu'r Cysylltiadau. Roedd swyddogion yn aml yn cynrychioli'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar weithgorau'n gysylltiedig â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac weithiau â rôl allweddol yn nhermau partneriaethau a

[55] Gweler: http://llwy.cymru/statistics-and-research/independent-evaluation-wales-council-voluntary-actions-making-connections-project/?lang=cy

fforymau eraill. Roeddent hefyd yn aml yn ganolog wrth sefydlu trefniadau ymgynghori o fewn y sector. Fodd bynnag maent wedi gweithio gyda, ac o amgylch, cydweithwyr eraill o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac yn anaml yr oeddent yn cwmpasu'r ystod gyfan o weithio partneriaeth. Gofynnwyd cwestiynau'n aml am allu swyddogion Creu'r Cysylltiadau i gynrychioli'r holl drydydd sector oherwydd barn (o fewn cyrff statudol a rhai cyrff mwy yn y trydydd sector) nad oedd Cynghorau Gwirfoddol Sirol eu hunain yn siarad ar ran pob corff trydydd sector.

Defnyddiodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau amrywiaeth o ddulliau i godi ymwybyddiaeth o waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn eu hardaloedd a rhoi gwybodaeth amdano a rhagorwyd i bell ar gynlluniau a chynnyrch targed y prosiect ar gyfer lledaenu. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn arwain at lefelau uchel o ymwybyddiaeth o waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r Cynlluniau Integredig Sengl. Roedd hyn oherwydd amrywiaeth o ffactorau, yn bennaf y canfyddiad bod Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithredu ar lefel ac mewn ffordd nad oedd o fawr o berthnasedd uniongyrchol i weithgareddau dydd-i-ddydd y rhan fwyaf o gyrff trydydd sector.

### *3.2.1. Gweithgareddau*

Roedd gweithgareddau cynrychioli a gwybodaeth yn ffocws pwysig i Creu'r Cysylltiadau, er efallai i'r ffocws ar yr elfen leihau rywfaint yng nghamau diwethaf y prosiect, wrth i swyddogion a'u rheolwyr llinell ddod yn fwy sicr fod ymyriadau ymarferol ar lefel gymunedol neu leol yn fwy tebygol o roi canlyniadau gweladwy.

Yn nhermau *sicrhau cyfranogiad y sector yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol a grwpiau allweddol,* er mai'r Prif Swyddog o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol a fynychai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol bron, roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau yn ymwneud yn agos gyda gwaith is-grwpiau neu weithgorau'n adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Roedd hyn yn wir mewn pedair o'n hardaloedd astudiaeth achos, er enghraifft, ac ystyrid yn gyffredinol bod swyddogion o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn

ychwanegu gallu hollbwysig i sicrhau bod yr ystod eang o is-grwpiau a phartneriaethau thematig (sy'n gyffredinol wedi parhau i gwrdd dan y Byrddau Gwasanaethau Lleol, er bwriad Llywodraeth Cymru y byddent yn dod i ben) fel arfer yn cael eu mynychu gan gynrychiolydd o'r trydydd sector.

Roedd hyn hefyd yn wir, er enghraifft, yn un o'r ardaloedd heb fod yn ardal astudiaeth achos lle dywedodd Prif Swyddog er bod staff eraill y Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gael i fynychu rhai grwpiau thematig (er enghraifft, is-grŵp ar Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant), fod swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi'i gwneud yn bosibl cael presenoldeb hollbwysig o'r trydydd sector mewn meysydd thematig eraill, yn arbennig adfywio economaidd a'r amgylchedd. Roedd y swyddog hefyd wedi gallu datblygu fforymau trydydd sector i gefnogi eu gwaith, gan sicrhau fod eu mewnbynnau'n fwy cynrychioladol yn eang o'r trydydd sector yn lleol, ac nid dim ond y Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Fel yn yr ardal yma, defnyddid swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd astudiaethau achos i 'lenwi'r bwlch' a ddaeth i'r amlwg o fewn strwythurau staffio Cynghorau Gwirfoddol Sirol neu gefnogi gwaith cydweithwyr o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol, efallai'n fwyaf arbennig y Cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant [56], sydd wedi parhau yn y rhan fwyaf o ardaloedd i fod yn swyddi llawn-amser o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol wedi'u hariannu gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol.

Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd eraill yn ôl cyfranogwyr grwpiau ffocws, roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi dod yn wyneb allanol y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r person 'mynd ato/ati' am ymholiadau cyffredinol am sut i ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y trydydd sector, tra credai un rhanddeiliad cenedlaethol fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gyffredinol wedi datblygu dealltwriaeth eang o faterion yn ymwneud â Chynghorau Gwirfoddol Sirol a phartneriaid sector cyhoeddus, gyda dim ond Prif Swyddog y Cynghorau Gwirfoddol Sirol â chymaint o ddealltwriaeth.

[56] Mae gan y rhain wahanol deitlau mewn gwahanol ardaloedd

Fodd bynnag, dim ond mewn un o'r pum ardal astudiaeth yr oedd y swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn gwirionedd yn cael eu defnyddio ar draws yr ystod gyfan o weithio partneriaeth. Yn yr ardal hon, rhoddodd y swyddog drefniadau mwy cydlynol ar waith i sicrhau fod cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac is-grwpiau yn gallu cynrychioli'r sector o ddifrif ac adrodd yn ôl ar ddatblygiadau. Yn ddiddorol, yn ardal yr astudiaeth achos yma, lle aeth cryn ymdrech i sefydlu system gydlynol ar y we i wneud hyn, roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi gadael y swydd yn gynnar a roedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ei chael yn anodd cynnal y system heb yr adnodd penodol yma, gan godi amheuon am ei gynaliadwyedd.

Dangosodd gwaith maes yng nghamau olaf yr ymchwil y gwaith mewn rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddatblygu gwybodaeth well o'r trydydd sector yn lleol a chreu cronfeydd data o sefydliadau a'u diddordebau ac ymgysylltu mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Er ei bod yn sicr na ddigwyddodd hyn ym mhob ardal (er yr ymdrech i gael swyddogion Creu'r Cysylltiadau i sefydlu llinell sylfaen glir yn eu hardal), bu dau fodel yn neilltuol o lwyddiannus (GAVO Connections yng Nghaerffili a Blaenau Gwent ac Info Engine - a ddatblygwyd yn wreiddiol ym Mhowys - yng Ngorllewin Cymru). Roedd y prosiect yn ariannu prosiect ymgynghoriaeth bach i ddatblygu cronfa ddata yn seiliedig ar y ddwy system y gellid eu cynnig i bob Cyngor Gwirfoddol Sirol ac ystyriai rhanddeiliaid fod hyn yn rhan bwysig o waddol y prosiect.

Er cryfhau cynrychiolaeth, ac ystod cynrychiolwyr, y trydydd sector yng nghyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau, dangosodd ein gwaith maes ym mhob un o'r pum ardal astudiaeth achos rai amheuon ar ran y partneriaid sector cyhoeddus ac, yn wir, rai cyrff mwy yn y trydydd sector i ba raddau y gallai Cynghorau Gwirfoddol Sirol siarad am yr holl drydydd sector, consyrn a adleisiwyd gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn y grwpiau ffocws.

Daeth *rhoi gwybodaeth ar ddatblygiadau gwasanaeth cyhoeddus i gyrff trydydd sector* hefyd i'r amlwg fel ffocws pwysig iawn yng ngwaith swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn yr ardaloedd astudiaeth achos a mannau eraill, gyda'r

cardiau adrodd gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn rhoi sylw i'r ystod o weithgareddau lledaenu.

Fodd bynnag, ystyrid yn eang y tanseiliwyd yr ymdrechion yma gan yr hyn a ystyrid - yn bennaf ond nid mewn unrhyw fodd yn unig o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol - fel diffyg cynnydd wrth ddatblygu gweithio partneriaeth ystyrlon mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol a datgysylltiad rhwng eu gwaith a chomisiynu a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd y pryderon hyn yn amlwg iawn yng ngham olaf y gwaith maes: mewn dwy o'r ardaloedd astudiaeth achos, roedd y strwythurau partneriaeth yn cael eu diwygio (fel canlyniad i'r gydnabyddiaeth, yn ôl cyfwelai awdurdod lleol bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi colli ei ffordd), ac mewn trydydd dywedodd cyfweleion o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol y cafodd cyfarfodydd allweddol eu canslo dro ar ôl tro oherwydd nad oedd uwch swyddogion o'r awdurdod lleol ar gael - er yn eironig, efallai, mewn pedwerydd lle bu barn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gamau cynharach y gwaith maes yn fwyaf negyddol, soniodd cyfweleion y gwnaed peth cynnydd o'r diwedd.

*3.2.2 Allbynnau*

Yn nhermau *cynlluniau a chynnyrch lledaenu,* mae monitro gan yr WCVA yn cadarnhau mai dyma’r maes lle bu'r prosiect yn fwyaf llwyddiannus yng nghyswllt ei dargedau ffurfiol, gyda thua 347 o gynlluniau lledaenu wedi'u cofnodi o gymharu â tharged o 15 ar gyfer yr holl brosiect, gyda 161 wedi'u cofnodi yn y pum ardal astudiaeth achos yn unig. Cadarnhaodd y gwaith maes astudiaethau achos hyn, gydag ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau'n cael eu defnyddio, yn cynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau, negeseuon ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol , negeseuon e-bost wedi eu targedu, dalenni yng nghylchlythyrau rheolaidd Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac mewn rhai achosion, gylchlythyrau gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol neu bartneriaid eraill, cyfarfodydd o fforymau trydydd sector a rhwydweithiau arbenigol trydydd sector, eitemau ar agendâu cyfarfodydd cyffredinol blynyddol Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac e-gylchlythyr Creu'r Cysylltiadau.

Yn nhermau *cynlluniau i gefnogi datblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol,* cytunwyd y byddai'r prosiect ei hunan yn cael ei gyfrif fel yr allbwn, gan yr ystyrid y byddai'n rhoi un cynllun ar draws yr ardal Cydgyfeirio i gefnogi datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol er mwyn cynyddu i'r eithaf ymgyfraniad y trydydd sector yng ngwaith pob un o'r Byrddau [57]. Ar lefel leol, mewn rhai achosion credid fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi cyfrannu at ddatblygiad y Byrddau Gwasanaethau Lleol, yn neilltuol drwy waith ar strategaethau ymgysylltu ac is-grwpiau.

### *3.2.3 Canlyniadau*

Er ymdrechion swyddogion Creu'r Cysylltiadau o ran cynrychiolaeth a gwybodaeth, nid yw'n glir os arweiniodd hyn at i'r *trydydd sector fod yn fwy gwybodus* am agenda Byrddau Gwasanaethau Lleol, er y credai rhanddeiliaid cenedlaethol iddynt gael cryn lwyddiant yn gyffredinol wrth ddarparu gwybodaeth safon uchel am ddatblygiadau Byrddau Gwasanaethau Lleol i'r sector, gydag is-grwpiau ymgysylltu mewn llawer o ardaloedd hefyd yn llwyddo wrth ennill sylw'r sector am yr agenda strategol.

Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos, gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o'r cyrff trydydd sector y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus iawn am ddatblygiadau o fewn y Byrddau Gwasanaethau Lleol ac mai cymharol ychydig o wybodaeth oedd ganddynt o'r Cynlluniau Integredig Sengl: ni chredid y byddai hyn wedi newid yn sylweddol adeg cam olaf ein gwaith maes. Roedd y rhesymau am hyn yn bennaf mewn ffactorau cyd-destun tu allan i reolaeth Creu'r Cysylltiadau, yn arbennig y datgysylltiad tebygol rhwng gwaith Byrddau Gwasanaethau Lleol a phryderon cyrff trydydd sector oedd dan bwysau, yn neilltuol pan fo toriadau mewn cyllid a galw aml yn uwch am wasanaethau, er mewn rhai achosion, ymddangosai fod proffil isel swyddogion Creu'r Cysylltiadau eu hunain, cyswllt cyfyngedig rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff mwy yn y trydydd sector, a chyfathrebu heb ffocws digonol wedi cyfrannu at hyn.

---

[57] Prosiect Creu'r Cysylltiadau: Canllawiau Adrodd ar Allbynnau a Chanlyniadau, WCVA

### 3.3 Mewnbwn i Gynllunio Gwasanaethau

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Yn gyffredinol nid oedd mewnbwn i gynllunio gwasanaeth ar y lefel strategol yn nodwedd sylweddol o weithgaredd Creu'r Cysylltiadau, yn gyffredinol oherwydd na ystyrid bod y rhan fwyaf o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn ymwneud â materion manwl cynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

Mewn tair ardal astudiaeth achos, fodd bynnag, bu peth cynnydd wrth drefnu cysylltiadau i hwyluso mewnbwn trydydd sector i gynllunio gwasanaethau a meithrin gallu'r sector i fwydo i gynllunio o'r fath, er mewn un ohonynt, ymddangosai fod ymadawiad cynnar swyddog Creu'r Cysylltiadau a newidiadau sylweddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn herio rhai o'r enillion a wnaed.

Yn gyffredinol, cafodd targedau ar gyfer cytundebau cydweithio a secondiadau eu cyflawni fel arfer, er mai dim ond ychydig dros hanner y Byrddau Gwasanaethau Lleol oedd wedi llofnodi cytundeb cydweithio ffurfiol gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, efallai'n awgrymu diffyg blaenoriaeth i'r prosiect gan bartneriaid sector cyhoeddus.

Mewn llawer o achosion ceisiodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gynyddol yng nghamau diwethaf y prosiect weithio ar lefel fwy lleol neu arbenigol - gan osgoi'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a strwythurau partneriaeth - i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o gydweithio a defnyddio arbenigedd y sector wrth lunio gwasanaethau. Ystyriai llawer o gyfranwyr i'r ymchwil mai'r enghreifftiau mwy cynnil hyn o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn meithrin gallu cyrff trydydd sector i ymgysylltu gyda a chyfrannu at syniadau'r sector cyhoeddus am ddarparu gwasanaeth oedd canlyniadau pwysicaf y prosiect.

Yn fwy cyffredinol, roedd barn gref o'r tu fewn i'r sector bod diffyg parodrwydd awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon gyda'r sector am siâp gwasanaethau yn cyfyngu llawer ar botensial swyddogion Creu'r

Cysylltiadau a'r sector yn fwy cyffredinol i ddylanwadu ar gynllunio gwasanaethau.

*3.3.1 Gweithgareddau*

Yn nhermau *hwyluso mewnbwn i gynllunio gwasanaethau drwy drefnu cysylltiadau,* o leiaf ar lefel y Byrddau Gwasanaethau Lleol neu eu strwythurau cefnogi, ymddangosai y bu hyn yn llai o nodwedd gwaith swyddogion Creu'r Cysylltiadau, i raddau helaeth unwaith eto oherwydd nad oedd Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ymwneud â materion manwl cynllunio gwasanaethau.

Serch hynny, roedd yn rhan weddol bwysig o waith nifer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn yr astudiaethau achos, yn arbennig mewn un achos lle'r oedd y sector wedi ymwneud yn uniongyrchol ag arwain nifer o gynlluniau allweddol yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Integredig Sengl (ac a fyddai'n gosod y sylfeini ar gyfer harneisio arbenigedd cyrff trydydd sector yn fwy effeithlon gyda blaenoriaethau allweddol Byrddau Gwasanaethau Lleol), tra mewn ardaloedd eraill roedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi sicrhau fod mewnbwn arbenigol gan y trydydd sector i drafodaethau ar lefel y Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu is-grŵp o themâu allweddol megis trais domestig. Ond yn gyffredinol, ystyrid nad oedd rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau yn y cyswllt hwn yn aml wedi datblygu cystal â staff eraill y Cynghorau Gwirfoddol Sirol oedd wedi ennill eu plwyf dros gyfnod hirach, yn neilltuol y cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, yn neilltuol yng nghyswllt cysylltiadau gyda Byrddau Iechyd Lleol, a ystyrid yn y rhan fwyaf o'n hardaloedd astudiaeth achos fel bod yn rhoi llawer mwy o groeso i ymgyfraniad Cynghorau Gwirfoddol Sirol nag awdurdodau lleol [58].

Cadarnhaodd cam olaf y gwaith maes yn ardaloedd yr astudiaethau achos y farn nad oedd Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gyffredinol yn gweithio ar lefel lle'r oeddent yn trin materion manwl dyluniad gwasanaethau, ac amlygu eto'r

[58] Gweler, er enghraifft, y gwerthusiad ffurfiannol tt. 43 -4

farn fod awdurdodau lleol yn neilltuol yn amheus o roi unrhyw radd sylweddol o ddylanwad i'r sector dros ddyluniad gwasanaethau.

Fodd bynnag, dangosodd cam olaf y gwaith maes hefyd fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn llawer o achosion wedi ceisio'n gynyddol i weithio ar lefel fwy lleol neu arbenigol - osgoi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a strwythurau partneriaeth - i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o gydweithio a defnyddio arbenigedd y sector wrth lunio gwasanaethau. Felly, yn ardal un astudiaeth achos, roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi clustnodi cryn amser i ddau gynllun, y ddau'n gysylltiedig ag iechyd: roedd un o'r rhain yn brosiect dan arweiniad y Bwrdd Iechyd Lleol gyda ffocws ar wella canlyniadau mewn un rhan o ardal yr awdurdod lleol a'r llall yn gytundeb cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a chorff unigol i ddefnyddio'r trydydd sector yn fwy effeithlon wrth hwyluso pobl i fynd adref o'r ysbyty. Yn yr un ardal, roedd y swyddog wedi hwyluso nifer o weithdai yn dod â staff caffael o'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ynghyd â chyrff trydydd sector, er mwyn ceisio dylanwadu ar y dull caffael (a gyda chefnogaeth y WCVA) wedi ffurfio Grŵp Cyfeirio Trydydd Sector i gronni profiad o ddelio gyda phrosesau a gweithdrefnau caffael.

Mewn ardal arall, dywedodd swyddog Creu’r Cysylltiadau ei bod dros tua'r deuddeg mis diwethaf wedi defnyddio llawer mwy o ddull gweithredu 'gwaelod i fyny', gan gysylltu'n uniongyrchol gyda sefydliadau partner yn hytrach nag edrych i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol am arweinyddiaeth. Roedd hyn wedi cynnwys gweithio gyda chydweithwyr mewn rhannau eraill o'r rhanbarth a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau i gynnal digwyddiad ymgynghori/ ymgysylltu.

Yn fwy cyffredinol, dangosodd y grwpiau ffocws fod llawer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi 'gorfod cymryd cyfleoedd wrth iddynt godi' ac yn ystyried y 'camau bach' yr oeddent wedi helpu i'w sicrhau fel bod o arwyddocâd cyfartal neu fwy na gwaith gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu ei is-grwpiau. Felly mewn un grŵp, soniwyd am enghreifftiau megis helpu fforwm anabledd i weithio gyda swyddog trafnidiaeth gyhoeddus yr awdurdod lleol ar ddylunio llochesi bysus a hwyluso grŵp cynyddu incwm a fynychwyd

gan swyddogion yr awdurdod lleol ac oedd wedi canolbwyntio eu meddyliau ar rôl y trydydd sector yn trechu tlodi. Mewn ardal arall, tanlinellodd cyfranogwyr bwysigrwydd bod yn rym cysylltiol ar raddfa fach, gan gefnogi grwpiau cymunedol bach nad oeddent erioed o'r blaen wedi ymgysylltu gyda'r sector cyhoeddus i siarad gyda'r awdurdod lleol.

Adleisiwyd y sylwadau hyn yn y cardiau adrodd, sy'n cynnwys enghreifftiau o weithgaredd penodol nad oedd â chysylltiad uniongyrchol â'r Byrddau Gwasanaethau Lleol neu'n wir gyrff allweddol y sector cyhoeddus ond oedd yn sicrhau canlyniadau, er enghraifft, hwyluso partneriaeth rhwng cymdeithas tai a chorff trydydd sector seiliedig ar gelfyddydau i gael mynediad i gyllid parhau gan Gyngor Celfyddydau Cymru i alluogi mwy o ymgysylltu cymunedol.

Yn nhermau hyfforddiant mwy ffurfiol i alluogi cyrff trydydd sector i gymryd rhan effeithlon mewn cynllunio gwasanaethau, roedd hyn yn nodwedd yng ngwaith rhai swyddogion Creu'r Cysylltiadau, yn arbennig mewn dwy ardal astudiaeth achos ond yn llai amlwg mewn mannau eraill, er mewn un o'r ddwy ardal hyn roedd darpariaeth hyfforddiant fwy neu lai wedi gorffen oherwydd i swyddog Creu'r Cysylltiadau adael yn gynnar a bod y cyllid ar gyfer swyddi eraill wedi dod i ben. Mewn rhai o'r ardaloedd eraill, nid oedd diffyg ymgyfraniad y swyddog Creu'r Cysylltiadau oherwydd nad oedd hyfforddiant o'r fath ar gael ond yn hytrach fod hyfforddiant yn yr ardaloedd hyn yn faes ar wahân o weithgaredd o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac nad oedd angen i swyddogion Creu'r Cysylltiadau gymryd rhan, ac weithiau roeddent wedi eu hannog rhag gwneud hynny [59].

### *3.3.2 Allbynnau*

Roedd *trefniadau cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector* yn wreiddiol yn darged ar gyfer y prosiect, ond cafodd hyn wedyn ei rannu'n ddau: yn gyntaf trefniadau cydweithio rhwng Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Byrddau Gwasanaethau Lleol (gyda tharged o 13, gyda phob Cyngor

[59] Gweler gwerthusiad ffurfiannol tt. 47-8

Gwirfoddol Sirol yn naturiol wedi'i gyfyngu i un) a threfniadau cydweithio o fewn y trydydd sector neu rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, gyda tharged o 30. Mae canllawiau'r WCVA yn ei gwneud yn glir y gall yr allbynnau yn yr achos diwethaf gynnwys cytundebau megis rhai'n gysylltiedig â hyfforddi staff ar y cyd, uno rhwng cyrff a digwyddiadau a drefnwyd ar y cyd rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Yn nhermau'r cyntaf o'r rhain, dangosodd data monitro ar ddiwedd y prosiect fod wyth cytundeb cydweithio ffurfiol yn eu lle rhwng Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Byrddau Gwasanaethau Lleol. Efallai bod y ffaith na chwblhawyd cytundebau o'r fath mewn ychydig dan hanner ardaloedd awdurdodau lleol yn dangos diffyg blaenoriaeth a roddwyd i'r prosiect (a gellid dadlau i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol) gan rai Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Yn nhermau'r ail, rhagorwyd ar y targed o 30, gyda chyfanswm o 41 cytundeb cydweitho wedi'u cofnodi a gyda'r holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn dweud fod ganddynt o leiaf un cytundeb ar waith. Er nad yw categoreiddio anhyblyg yn bosibl o'r wybodaeth sydd ar gael, roedd tua thraean y rhain yn ymwneud â digwyddiadau a gynhaliwyd ar y cyd gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol a chorff sector cyhoeddus a thraean arall yn ymwneud â chytundebau rhwng cyrff trydydd sector a chyrff sector cyhoeddus (yn cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Byrddau Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Tân ac Achub).

Roedd ail darged allbwn ffurfiol ar gyfer y prosiect yn ymwneud â secondiadau rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Fel ar 31 Mawrth 2015, rhagorwyd ar y targed o 12, gyda 22 o secondiadau wedi'u cofnodi, er bod y rhain wedi'u dosbarthu'n llai gwastad, gyda thair ardal awdurdod lleol heb gefnogi unrhyw secondiadau, a dau Gyngor Gwirfoddol Sirol yn cyfrif am naw o'r 22.

Mae canllawiau'r WCVA yn ei gwneud yn glir fod y diffiniad o secondiad yn eithaf eang ac y gallai gynnwys ymlyniadau tymor byr, rhwng ychydig

ddyddiau i ychydig fisoedd neu gysgodi swyddog mewn sefydliad arall yn eu gwaith bob dydd neu ar gyfer digwyddiad neilltuol [60].

Mae'n data monitro a'n gwaith maes gydag ardaloedd astudiaethau achos (oedd yn cyfrif am fwy na hanner yr holl secondiadau) yn awgrymu mai cymharol ychydig o'r rhain oedd yn cynnwys secondiadau i'r trydydd sector o'r sector cyhoeddus, gyda thraean ohonynt yn fyfyrwyr sefydliadau addysg uwch neu staff a noddir gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a nifer tebyg o staff Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cael secondiad i'r sector cyhoeddus. Mewn tair o'r ardaloedd astudiaethau achos (yn cyfrif am wyth neu bron hanner yr holl secondiadau), ymddangosai mai dim ond cysylltiad anuniongyrchol oedd rhwng y secondiadau hyn â gwaith swyddog Creu'r Cysylltiadau, gyda Phrif Swyddog y Cyngor Gwirfoddol Sirol â rôl hollbwysig wrth negodi'r secondiadau ac yn un ohonynt roedd yn glir fod rhai o'r rhain yn parhau patrwm blaenorol lle gallodd y Cyngor Gwirfoddol Sirol recriwtio staff am gontractau tymor byr i gyflawni rolau o fewn cyrff sector cyhoeddus y byddai'n anymarferol eu llenwi drwy brosesau recriwtio arferol y cyrff sector cyhoeddus.

Efallai bod hyn yn awgrymu yn y cyswllt hwn o leiaf nad oedd targedau'r allbynnau yn arbennig o ystyrlon ac yn gyffredinol nid oedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau a rhanddeiliaid lleol eraill yn ystyried bod yr allbynnau ffurfiol hyn yn ffordd neilltuol o effeithlon o ddangos gwerth eu gwaith. Cydnabuwyd hyn hefyd gan randdeiliaid cenedlaethol oedd yn gyffredinol yn ystyried bod y casgliad o ddata allbwn yn bwysig mewn telerau cydymffurfiaeth ond nid yn adlewyrchiad go iawn o werth y prosiect:

> ‘Nid ydynt o ddifrif yn dangos y gwaith da a fu'n mynd rhagddo'.

Yn nhermau *sefydliadau a hyfforddwyd mewn cynllunio gwasanaeth,* fel y nodwyd eisoes, yn gyffredinol nid oedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau yr astudiaethau achos wedi ymwneud yn ffurfiol â darparu na hwyluso hyfforddiant o'r fath ac er bod cardiau adrodd yn rhoi data ar nifer y cyrff a

[60] Ibid.

fynychodd sesiynau hyfforddi, byddai'n anodd iawn gwahanu data yn cyfeirio at y math penodol yma o hyfforddiant.

*3.3.3 Canlyniadau*

Cadarnhaodd cam olaf ein gwaith maes yn yr ardaloedd astudiaethau achos yn fras y canfyddiadau o gamau cynharach yr ymchwil mewn dwy ardal astudiaeth achos, lle bu'r maes hwn yn ffocws sylweddol o weithgareddau swyddogion Creu'r Cysylltiadau, ymddangosai'n debygol fod rôl Creu'r Cysylltiadau wedi arwain at gynnydd yng *ngallu'r sector i ddylanwadu ar benderfyniadau'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus,* o leiaf yn ystod oes y prosiect: yn un o'r ardaloedd hyn, roedd ymadawiad swyddog gwreiddiol Creu'r Cysylltiadau, ynghyd ag ailstrwythuro helaeth ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac adolygiad o holl gyllid yr awdurdod lleol i'r trydydd sector, yn herio o leiaf rai o'r enillion a sicrhawyd yn nhermau'r dylanwad yma. Yn yr ardal yma, gwrthodwyd cynnig yr awdurdod lleol i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol gyd-reoli'r adolygiad cyllid oherwydd y teimlid ei bod yn 'gwpan wenwynig' gan mai'r nod benodol oedd gostwng cyfanswm cyllid i'r sector.

Yn ardal y drydedd astudiaeth achos, ar y llaw arall, lle bu'r cysylltiadau rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol yn wael, roedd rhai arwyddion mwy cadarnhaol o gynnydd: credai'r Cyngor Gwirfoddol Sirol fod gwaith gyda swyddogion caffael wedi sicrhau newid mewn agweddau, er y teimlid o hyd bod rhwystrau sylweddol i newid ymarfer caffaeliad (nid yn lleiaf oherwydd yr hyn y dywedwyd ei fod yn ddull osgoi risg gan wasanaethau cyfreithiol y Cyngor).

Mewn pedwaredd ardal, lle'n gyffredinol roedd cyfweleion yn dal i deimlo nad oedd Creu'r Cysylltiadau wedi medru gwneud fawr o gynnydd ond lle'r oedd y swyddog wedi penderfynu 'osgoi' y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi sicrhau peth cynnydd yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys trefnu cyfres o leoliadau/ ymweliadau gan uwch aelod o staff i gorff trydydd sector perthnasol, y teimlid

a allai maes o law arwain at fwy o ddealltwriaeth ar ran y comisiynwyr o'r rôl bosibl y gallai'r sector ei chwarae.

Yn fwy cyffredinol, tueddai rhanddeiliaid cenedlaethol a Phrif Swyddogion a ymatebodd i'r holiadur a'r grwpiau ffocws danlinellu er nad oedd y prosiect wedi arwain at unrhyw newid sylfaenol yn y farn am ddylunio gwasanaeth ar lefel y Byrddau Gwasanaethau Lleol neu strategol, bod llawer o enghreifftiau mwy cynnil o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn meithrin gallu cyrff trydydd sector i ymgysylltu gydag a chyfrannu at syniadau'r sector cyhoeddus am ddarparu gwasanaethau.

Felly soniodd un Prif Swyddog sut y bu'r swyddog Creu'r Cysylltiadau yn allweddol wrth hybu gwaith ar sgiliau sylfaenol, yn wyneb diffyg diddordeb dechreuol gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (a ystyriai fod y mater yn un rhy anodd), ac a arweiniodd at gysylltiadau llawer nes rhwng y sector Addysg Bellach a chyrff trydydd sector yn gweithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd, a gyda diddordeb llawer cryfach gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Soniodd un arall am waith gyda llyfrgelloedd oedd dan fygythiad a chredai trydydd mai prif lwyddiant y prosiect yn ei hardal fu galluogi 'mwy o ymgyfraniad gyda darparwyr gwasanaethau statudol, yn cynnwys yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r gwasanaeth Tân ac Achub', gan arwain at nifer o brosiectau ar y cyd.

Deallwn fod y WCVA yn paratoi astudiaethau achos sy'n cynnwys mwy o enghreifftiau lle ystyrir i swyddogion Creu'r Cysylltiadau wneud gwahaniaeth ymarferol.

Ar yr un trywydd, dywedodd rhanddeiliad cenedlaethol nad oedd cyfraniad swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn galluogi llwyddiant prosiectau Byrddau Gwasanaethau Lleol a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei werthfawrogi'n llawn yn aml (er ei bod yn rhaid dweud bod yr ymgyfraniad hwn yn gyffredinol gyfyngedig yn ardaloedd ein hastudiaethau achos). Dywedodd rhanddeiliad cenedlaethol arall fod Creu'r Cysylltiadau wedi

gweithio orau lle'r oedd prosiectau ymarferol - oedd weithiau'n cael eu hariannu gan y prosiect ehangach - i weithio gyda nhw, ond cyfaddefodd mewn llawer o ardaloedd y bu'n rhaid i swyddogion Creu'r Cysylltiadau dreulio 'llawer o amser yn gwneud dim ond ceisio darbwyllo pobl [yn y sector cyhoeddus] o werth cymryd rhan'.

Mae'r sylw yma'n cadarnhau'r pwynt a wnaed yn y gwerthusiad ffurfiannol er, yn nhermau mewnbwn y trydydd sector i ddylunio gwasanaethau, fod y model rhesymeg yn canolbwyntio ar allu, neges glir o'n gwaith maes yn ardaloedd yr astudiaethau achos oedd bod rhwystrau go iawn ar yr ochr *alw* yng nghyswllt dylanwad y sector ar gomisiynu penderfyniadau. Ni ystyrid fod hyn wedi newid ym misoedd olaf y prosiect.

Yn o leiaf dair o'r ardaloedd astudiaeth achos roedd cyfweleion o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r trydydd sector yn fwy cyffredinol yn amheus iawn o ddiddordeb partneriaid sector cyhoeddus (yn arbennig awdurdodau lleol) ar wrando ar farn y sector ac ym mhob un o'r ardaloedd hyn, ategodd cyfweleion o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (ac mewn un achos, hefyd o fewn yr awdurdod lleol) ar y cam terfynol eu barn y byddai angen newid enfawr mewn diwylliant o fewn awdurdodau lleol i gael unrhyw ddylanwad difrifol ar benderfyniadau comisiynu allweddol. Soniodd cyfwelai'r awdurdod lleol am farn 'bwrdeistrefol' cryf yr uwch swyddogion ac aelodau, na chredai bod angen ymgynghori am siâp gwasanaethau, a dywedodd Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Sirol bod datganiadau clir gan arweinwyr cynghorau mai eu prif nod oedd diogelu swyddi yn y sector cyhoeddus (yn hytrach na gwasanaethau) yn dangos fod awdurdodau lleol yn parhau i fod â ffocws mewnol. Fel canlyniad, mae'n amlwg y teimlai'r cyfweleion hyn mai gwerth cyfyngedig ar ei orau oedd i feithrin gallu'r sector i'w fewnbynnu i gynllunio gwasanaethau a'i fod yn wastraff amser mewn rhai achosion.

Er efallai'n llai digalon na rhanddeiliaid o fewn ardaloedd yr astudiaethau achos, tueddai rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd i bwysleisio fod diddordeb awdurdodau lleol mewn gwrando ac ymateb i farn y trydydd sector yn ddarniog ar ei orau. Felly dywedodd un:

> ‘Gallai swyddog Creu'r Cysylltiadau fod yn gweithio'n wirioneddol agos gyda, dyweder, tai, ond canfod eu bod yn taro wal frics wrth geisio ymwneud â gwasanaethau plant'

a nodi nad oedd swyddogion eu hunain mewn gwirionedd mewn swyddi digon uchel i ganfod eu ffordd o amgylch rhwystrau o'r fath. Dywedodd rhanddeiliaid eraill y bu'n afrealistig bob amser disgwyl i un swyddog Creu'r Cysylltiadau ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol sicrhau newid sylfaenol mewn agweddau o fewn awdurdodau lleol:

> ‘Byddai'n naïf disgwyl i un swyddog newid y byd'

Yn gyffredinol, ychydig o newid amlwg y credai'r rhanddeiliaid hyn fu ar lefel strategol yn safbwynt awdurdodau lleol tuag at ymgysylltu gyda'r trydydd sector, gan ddweud bod ffactorau eraill (megis toriadau cyllideb) hyd yma wedi gwneud i awdurdodau lleol fod ag agwedd mwy mewnol yn hytrach na llai.

Er yn gyffredinol ystyrid bod Byrddau Iechyd Lleol ac mewn rhai achosion y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn barotach i dderbyn mewnbwn gan y trydydd sector, yn gyffredinol yr adborth o'r ardaloedd astudiaeth achos (yn neilltuol o gyrff trydydd sector eu hunain) oedd bod ymgysylltiad y sector a'i allu i siapio dyluniad gwasanaeth yn parhau'n weddol gyfyngedig. Lle gwnaed cynnydd gyda Byrddau Iechyd Lleol, roedd hyn yn bennaf yn ganlyniad mewnbynnau Cydlynwyr Iechyd, Cymdeithasol a Llesiant oedd â pherthynas hir-sefydlog gyda staff allweddol Byrddau Iechyd Lleol, yn seiliedig ar fodolaeth y swyddi hyn am fwy na deng mlynedd.

### 3.4 Mewnbwn i Ddarpariaeth Gwasanaethau

| ***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL*** |
|---|
| Bu cryn amrywiaeth yn y graddau y bu swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn ymwneud â darparu hyfforddiant a chyngor i gyrff trydydd sector i gynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn dibynnu ar y blaenoriaethau ac adnoddau eraill oedd ar gael i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol. Ymhellach, o |

gofio mai cymharol ychydig o gyfleoedd sydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd i gyrff trydydd sector dendro am gontractau sector cyhoeddus, teimlai rhai cyfranwyr y gwastraffwyd ymdrechion i feithrin gallu o'r fath.

Mewn rhai achosion, datblygodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau fforymau a rhwydweithiau newydd trydydd sector a wnaeth wella capasiti'r sector i gydweithio ond teimlai rhai cyfranwyr i'r ymchwil y credai Cynghorau Gwirfoddol Sirol y gallai rôl mewn trefnu neu arwain partneriaethau ar y cyd i dendro am gontractau sector cyhoeddus olygu y byddai Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cystadlu gyda chyrff mwy yn y trydydd sector.

Roedd adborth o'r ardaloedd astudiaeth achos yn neilltuol yn awgrymu eto y bu'r cyd-destun yn anffafriol i'r agwedd yma o Creu'r Cysylltiadau, o gofio'r hyn a ystyrid yn eang yn ddiffyg arferion caffael tryloyw a thueddiad awdurdodau lleol yn neilltuol i roi blaenoriaeth i ddiogelu swyddi sector cyhoeddus dros wasanaethau cyhoeddus. Lle defnyddiwyd y trydydd sector, teimlid fod hyn yn rhy aml yn cael ei yrru gan gamsyniad ar ran cyrff sector cyhoeddus ei fod yn ddewis rhad.

Ar yr un pryd, dywedodd rhai cyfranwyr i'r ymchwil nad caffaeliad oedd y ffordd i gynyddu rôl y trydydd sector mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddweud mai'r hyn oedd ei angen oedd llawer mwy o bwyslais ar rymuso a galluogi cydweithio lleol mwy hyblyg rhwng gweithwyr rheng-flaen a'r trydydd sector i gyflawni anghenion lleol.

*3.4.1 Gweithgareddau*

Ynn nhermau *rhoi cyngor a help i ddarparwyr arfaethedig o'r trydydd sector,* awgrymodd ein hastudiaethau achos bod cyfarfodydd un-i-un gyda chyrff unigol yn y trydydd sector yn nodwedd sylweddol o waith rhai swyddogion Creu'r Cysylltiadau. Er mewn rhai achosion bod cysylltiad penodol rhyngddynt â chyfleoedd caffael, mewn eraill roedd yn anodd gwahaniaethu rhwng y gwaith hwnnw â chyngor mwy cyffredinol ar faterion 'traddodiadol' Cynghorau Gwirfoddol Sirol fel llywodraethiant a strwythur ac mewn eraill eto, byddai'n

ymddangos nad oedd cyfarfodydd o reidrwydd wedi mynd lawer pellach na chyfnewid dechreuol ar wybodaeth.

Awgrymodd cam olaf y gwaith maes fod hyn wedi parhau i ryw raddau yn chwe mis olaf darparu'r prosiect, gyda un swyddog Creu'r Cysylltiadau er enghraifft yn treulio rhan sylweddol o'i hamser yn gweithio gydag un corff trydydd sector ar eu perthynas gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol ac un arall yn dweud y bu ymateb i amrywiaeth o ymholiadau gan gyrff trydydd sector yn ymwneud â cheisiadau am gyllid, datblygu polisïau a chyfansoddiadau yn rhan o'i gwaith diweddar.

Yn yr un modd, awgrymodd ein hastudiaethau achos y bu *trefnu mentrau cydweithio rhwng cyrff trydydd sector* yn elfen yng ngwaith rhai, er nid y cyfan o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn ardaloedd yr astudiaethau achos. Yng ngham olaf y gwaith maes, ystyriwyd bod gwaith mapio a chronfa ddata nifer o Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn rhag-amod pwysig a hanfodol ar gyfer hyn, ac mewn un ardal astudiaeth achos bu sefydlu porth rhwydweithio a gwybodaeth yn dod ynghyd â gwasanaethau trydydd sector ar gyfer pobl ifanc a chysylltu hyn gyda Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu yr awdurdod lleol yn rhan bwysig o waith Creu'r Cysylltiadau: datblygwyd gwasanaeth cyfeirio gwybodaeth tebyg hefyd ar gyfer cymorth y trydydd sector ar gyfer pobl oedrannus, agored i niwed.

Gan adlewyrchu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad ffurfiannol fod rhai cyrff mwy yn y trydydd sector yn ystyried ymgais Cynghorau Gwirfoddol Sirol i drefnu neu'n wir i arwain trefniadau cydweithio ar gyfer tendro contractau yn 'gystadleuaeth', tueddai rhanddeiliaid cenedlaethol i gytuno fod yn rhaid i Gynghorau Gwirfoddol Sirol symud ofalus yn nhermau'r rôl hon, gydag un yn tybio os oedd hyn yn mynd â'r Cyngor Gwirfoddol Sirol tu allan i'w rôl draddodiadol fel cyfryngwr rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i rôl fwy gweithredol a allai olygu risg o wrthdaro gyda darparwyr mwy oedd wedi ennill eu plwyf.

Yn nhermau *hyfforddiant/cefnogaeth i sicrhau y gall cyrff trydydd sector dendro,* roedd cryn amrywiaeth yn ymgyfraniad swyddogion Creu'r Cysylltiadau ar draws ein hardaloedd astudiaeth achos, gan fod yn rôl sylweddol mewn dwy o'r ardaloedd ac yn rôl llawer llai pwysig mewn dwy ardal arall oherwydd bod hyfforddiant yn cael ei drin mewn man arall o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol, ac oherwydd bod gan brosiectau eraill a gyllidwyd gan Ewrop gyfrifoldeb penodol am ddarparu gweithgaredd tebyg [61].

Awgrymodd cam olaf y gwaith maes y bu rhai newidiadau: mewn un ardal astudiaeth achos, lle bu hwyluso hyfforddiant yn elfen bwysig o waith swyddogion Creu'r Cysylltiadau, fel y nodwyd eisoes, cafodd bron y cyfan o'r gweithgaredd hyfforddiant ei atal oherwydd ymadawiad nifer o swyddogion allweddol (yn cynnwys swyddog Creu'r Cysylltiadau) ac oherwydd bod y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ailstrwythuro o amgylch tîm creiddiol llawer llai. Efallai ei bod yn ddigalon mai'r prif gynllun hyfforddi oedd yn mynd rhagddo oedd rhaglen hyfforddi ar gyfer cyrff trydydd sector gan bartneriaeth o gyrff sector cyhoeddus a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar drin newid ac adeiladu nerth sefydliadol yng nghyd-destun toriadau llym tebygol mewn cyllid. Mewn un arall, roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi cynyddu ei hymwneud gyda hyfforddiant, er y gellid dweud bod peth o hyn e.e. cwrs ar newyddiaduraeth gymunedol a ffotograffiaeth yn fwy perthnasol i ymgysylltu â dinasyddion nag i gaffael yn wahanol i elfennau eraill, megis hyfforddiant ar systemau rheol'r amgylchedd a pholisïau ac arferion cydraddoldeb.

Teimlai swyddog arall Creu'r Cysylltiadau, a dreuliodd lawer o amser yn 18 mis cyntaf ei gwaith yn datblygu a hwyluso sesiynau hyfforddiant, wrth edrych yn ôl y bu hyn yn weddol amherthnasol i'w rôl greiddiol:

> ‘cafodd fy amser ei wastraffu yn disgwyl cytuno ar y Cynllun Integredig Sengl, er mod i'n gwneud pethau fel gweithdai ar sut i dendro a phethau felly ... ond cafodd hyd yn oed hynny ei wneud heb dargedu cyrff a allai symud pethau ymlaen'.

[61] Megis Cymunedau Mentrus, Llais Cymunedol a Chymunedau yn Cydweithio.

*3.4.2 Allbynnau*

Ni chytunwyd ar unrhyw allbynnau penodol gyda WEFO ar gyfer *sefydliadau a hyfforddwyd/cefnogwyd i gyrraedd safonau caffael.* Er bod cardiau adrodd yn rhoi manylion nifer y grwpiau'n mynychu gwahanol ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddiant, mae'n anodd eu gwahanu oddi wrth rai'n ymwneud yn benodol â'r nod o gyflawni safonau caffael. Am y rhesymau a nodir uchod, byddai'n ymddangos nad oedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn llawer o achosion wedi ymwneud yn uniongyrchol gyda hyfforddiant o'r fath.

Yn nhermau *trefniadau cydweithio o fewn y trydydd sector,* fel y nodwyd yn Adran 3.3.2, newidwyd y targed allbynnau i gynnwys trefniadau cydweithio o fewn y trydydd sector neu rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, gyda tharged o 30, a basiwyd erbyn 31 Mawrth 2015, gyda chyfanswm o 41 o drefniadau cydweithio wedi'u cofnodi a gyda'r holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn nodi y rhoddwyd o leiaf un cytundeb ar waith. Ymddangosai fod tua 13 o'r rhain yn cyfeirio at drefniadau cydweithio o fewn y sector.

Cytunwyd hefyd ar dargedau WEFO yng nghyswllt cyrff oedd wedi mabwysiadu neu wella systemau amgylcheddol a sefydliad yn mabwysiadu neu'n gwella systemau monitro cydraddoldeb - targedau sy'n cyfeirio at waith i wneud sefydliadau'n fwy parod i dendro ar gyfer gwaith gyda'r sector cyheoddus a hefyd yn dangos themâu trawsbynciol rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Dangosodd data monitro ar 31 Mawrth 2015 bod deg Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cefnogi cyfanswm o 12 corff gyda systemau amgylcheddol, tra bod saith Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cefnogi wyth corff gyda systemau monitro cydraddoldeb. Roedd all-dro felly is na'r targed o 15 ym mhob achos.

Mae'n ddiddorol mai dim ond i un corff yr un yr oedd y Cynghorau Gwirfoddol Sirol mewn tair o'n pump astudiaeth achos wedi cyflwyno'r math yma o gefnogaeth (gyda, mewn un achos yr un corff trydydd sector yn derbyn cefnogaeth gyda chydraddoldeb a hefyd reoli amgylcheddol) tra nad oedd un arall wedi cofnodi unrhyw allbynnau ar y targed yma. Efallai bod hyn yn awgrymu pam nad oedd y themâu trawsbynciol yn amlwg yn ein trafodaeth

gyda rhanddeiliaid astudiaethau achos. Yn o leiaf un ardal, fodd bynnag, roedd diffyg ymwneud Creu'r Cysylltiadau gyda'r materion hyn yn ganlyniad penderfyniad i roi blaenoriaeth i gyflawni targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer yr un gweithgaredd yn y prosiect Cymunedau Mentrus[62], tra pwysleisiodd un o'r prif swyddogion heb fod mewn ardal astudiaeth achos yr angen i:

> ‘symud ymaith o dicio blychau megis y fframweithiau gwiriad iechyd amgylcheddol a chydraddoldeb - wedi'r cyfan gwnawn nhw fel rhan o'n gwaith bob dydd ynghyd â llawer o faterion llywodraethiant eraill'.

*3.4.3 Canlyniadau*

Dangosodd yr ymchwil yn ardaloedd yr astudiaethau achos nifer o ganlyniadau canolraddol cadarnhaol, yn nhermau annog *cyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd* a *chynnydd yn nifer y cyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio.* Roedd hyn yn neilltuol o wir yn nhermau rhwydweithiau cryfach o gyrff trydydd sector yn gweithio ar themâu penodol sy'n cael eu datblygu: yn ogystal â'r rhai mewn dwy ardal astudiaeth achos a nodwyd yn y gwerthusiad ffurfiannol, roedd chwe mis olaf darpariaeth weithgar wedi gweld un swyddog Creu'r Cysylltiadau yn cyfnerthu grŵp cyfeirio strategol ar y trydydd sector i symud ymlaen gyda'r dialog gyda'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol y credid fod ganddo ddigon o fomentwn i'w gynnal ei hunan tu hwnt i gyfnod prosiect Creu'r Cysylltiadau. Disgwylid fod canllaw 'Sut i Wneud Busnes'; ar gyfer cyrff trydydd sector, yn cynnwys cyngor da ar ddelio gyda caffaeliad, yn waddol yn yr ardal yma.

Serch hynny, yn gyffredinol ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos, ychydig o dystiolaeth oedd yn ystod oes y prosiect Creu'r Cysylltiadau o unrhyw gynnydd o ran i ba raddau yr oedd gwasanaethau mewn gwirionedd yn cael eu darparu gan y trydydd sector, gyda llwyddiant Creu'r Cysylltiadau (ac yn wir y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredino) yn nhermau

---

[62] Prosiect Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a gyflwynwyd gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol i roi cefnogaeth i sefydliadau ac unigolion â diddordeb mewn sefydlu mentrau cymdeithasol. Gweler http://wefo.wales.gov.uk/news/latest/120206enterprisingcommunities/?lang=cy

cynyddu rôl y sector wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddibynnol iawn ar y cyd-destun ehangach, yn neilltuol yr 'ochr alw' h.y. barn cyrff statudol eu hunain os oedd yn briodol ac yn ddymunol i'r trydydd sector fod â rôl o'r fath.

Mewn gwirionedd, ychydig o le am optimistiaeth a roddodd ymchwil yr astudiaethau achos fod arferion comisiynu'r sector cyhoeddus yn dod yn fwy 'cyfeillgar i ddefnyddwyr' i'r trydydd sector. Yn wir, mewn o leiaf dair o'r ardaloedd astudiaeth achos, dangosodd ymchwil y cam terfynol fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn parhau i fod yn rhwystredig iawn oherwydd diffyg unrhyw ddull cydlynol a thryloyw i gynllunio comisiynu. Mewn un ardal, dywedodd swyddog Creu'r Cysylltiadau y tanseilid ymdrechion i adeiladu dulliau mwy cydweithiol at dendro gan amserlenni byr caffael unigol, ac er bod perthynas well rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a swyddogion caffael, roedd y swyddogion caffael yn mynnu nad oedd modd cyhoeddi amserlen tendrau arfaethedig ac yn dal i wrthod cynnwys staff Cynghorau Gwirfoddol Sirol mewn ymarferion comisiynu penodol oherwydd barn y byddai gwrthdaro diddordeb pe bai unrhyw gorff trydydd sector yn cynnig.

Mewn ardal arall, er yr ystyrid yn gyffredinol y bu Creu'r Cysylltiadau yn fras lwyddiannus, nododd Prif Swyddog y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ymarferol - er iddi lobio am ymrwymiad clir am strategaeth/amserlen gomisiynu dryloyw gan yr awdurdod lleol ers o leiaf 2008 - na wnaed unrhyw gynnydd ar hyn ac mewn gwirionedd bod cyfleoedd comisiynu yn dal i fod yn brin. Yn yr ardal hon, hefyd, roedd yn awr adolygiad cynhwysfawr o'r holl gontractau gyda a chyllid ar gyfer y trydydd sector gan yr awdurdod lleol, ac ofnid y byddai hynny'n arwain at wanhau llawer ar y sector yn lleol a gostwng ymgyfraniad y sector mewn darparu gwasanaethau, fel y gwnaeth yn o leiaf ddwy o'r ardaloedd astudiaethau achos eraill.

Gwnaeth diffyg cyfleoedd caffael i'r  Cyngor Gwirfoddol Sirol hwn a'r rhan fwyaf o'r astudiaethau achos i ddweud bod meithrin gallu drwy Creu'r Cysylltiadau a phrosiectau eraill mewn gwirionedd wedi rhedeg ymhell o flaen y cyfleoedd a fu ar gael neu sydd ar gael ar hyn o bryd, gan olygu y cafodd

peth o'r gwaith yma ei wastraffu: roedd cyrff trydydd sector wedi meithrin gallu a chyflwyno hyfforddiant ar sut i dendro ond ni chawsant gyfle i ddefnyddio'r sgiliau hyn ac yn awr, oherwydd trosiant staff, mae'n debyg y byddai angen hyfforddi'r cyrff unwaith eto.

Tueddai cyfranogwyr grwpiau ffocws i adleisio hyn, gyda chyfranogwyr mewn un grŵp yn awgrymu y bu'r prosiect yn rhy fyr a'r disgwyliadau'n rhy uchel. Er bod y prosiect wedi sicrhau buddion gwirioneddol yn gysylltiedig â gweithgareddau/ymyriadau penodol swyddogion Creu'r Cysylltiadau, bu'r cyfan ychydig yn ddarniog heb fawr o newid sylfaenol yng nghyfeiriad meddwl partneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol yng nghyswllt ymgysylltiad y trydydd sector mewn dylunio a darpariaeth.

Fodd bynnag, dywedodd rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws a nifer o randdeiliaid cenedlaethol y bu camsyniad mwy sylfaenol yn ffocws y prosiect ar gaffaeliad fel llwybr i gyrff trydydd sector gynyddu eu hymgyfraniad wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd un rhanddeiliad fod y pendil o fewn y sector yn awr wedi symud ymaith o'r farn mai'r ffordd ymlaen oedd 'proffesiynoli' cyrff trydydd sector a dywedodd un arall mai dim ond lleiafrif bach iawn o'r rhai a gefnogid gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol fyddai byth mewn sefyllfa i gystadlu am dendrau cyhoeddus. Yr hyn oedd ei angen - ond nad oedd wedi digwydd eto - oedd pwyslais llawer cryfach gan gyrff cyhoeddus ar rymuso a galluogi cydweithio lleol mwy hyblyg rhwng gweithwyr rheng-flaen a'r trydydd sector i gyflawni anghenion lleol. Yn y cyswllt yma, ystyrid ei bod yn gall i swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn rhai achosion gynyddu eu hymdrechion ar yr agenda lleol a phenodol, yn hytrach na'r agenda 'strategol', tra croesewid y cyfeiriad teithio a nodwyd yn y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol yn nhermau ffocws cryfach ar weithio cymdogaeth.

Efallai bod cam olaf y gwaith maes mewn ardaloedd astudiaeth achos yn awgrymu diddordeb cynyddol yn y math yma o weithio, gydag o leiaf ddwy yn cyfeirio at arbrofi newydd gyda gweithio cymdogaeth. Ond roedd hefyd yn awgrymu fod awdurdodau lleol yn parhau i fod â ffocws cryf ar gadw (neu hyd yn oed gymryd yn ôl) wasanaethau i fod yn fewnol er mwyn diogelu swyddi yn

y sector cyhoeddus a lle'r oedd awdurdodau lleol yn neilltuol yn meddwl am fwy o ddefnydd o'r sector wrth lenwi bylchau a adawyd wrth i doriadau'r sector cyhoeddus frathu'n ddyfnach, fod hyn yn seiliedig ar gamsyniad (ym marn cyfweleion Cynghorau Gwirfoddol Sirol) fod hyn oherwydd fod gan y trydydd sector seiliau cost is ac y gallent ddefnyddio gwirfoddolwyr yn lle staff cyflogedig.

Dywedodd un cyfwelai Cyngor Gwirfoddol Sirol y credai bod uwch swyddogion yn dal i ystyried darpariaeth trydydd sector fel ffordd o dorri costau: bu'n ddiweddar mewn cyfarfod gydag arweinydd y cyngor a bu'n rhaid iddi ddweud wrtho sawl gwaith na fedrid yn syml newid staff cyflogedig yn y sector statudol gyda gwirfoddolwyr o'r sector gwirfoddol yn gwneud yn union yr un swydd. Dywedodd un arall na ymddangosai fod y sector cyhoeddus yn deall 'nad oedd yr adnoddau' gan y trydydd sector i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth gwasanaethau yn gyfangwbl heb gymorth parhaus a thybient fod angen i staff sector cyhoeddus wneud mwy i 'siarad gyda' chyrff trydydd sector i ddeall yn well sut y gallai 'allgyrchu' helpu i ddiogelu neu wella gwasanaethau cyhoeddus yr oedd y sector cyhoeddus hyd yma wedi ystyried fel ei tir nhw.

### 3.5 Llais Dinasyddion

| |
|---|
| ***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***<br>Yn gyffredinol dim ond rhan gymharol fychan oedd gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn ardaloedd astudiaeth achos o ran datblygu rôl y trydydd sector yn sianelu llais y dinesydd, yn rhannol yn adlewyrchu amheuon (o fewn partneriaid statudol ond hefyd i ryw raddau o fewn y sector ei hunan) os oedd Cynghorau Gwirfoddol Sirol mewn lle da i gyflawni'r rôl yma. Fodd bynnag, mewn llawer o ardaloedd, gwnaeth swyddogion Creu'r Cysylltiadau gyfraniad sylweddol at strategaethau ymgysylltu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ac fe wnaeth y profiad yma hefyd helpu i drwytho syniadau ar lefel genedlaethol ar arfer da ar gyfer y dyfodol. |

Mae Creu'r Cysylltiadau hefyd wedi galluogi darparu hyfforddiant a gafodd yn gyffredinol ei dderbyn yn dda gan y sector yn 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru a bydd felly wedi cynyddu gallu'r sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth.

*3.5.1 Gweithgareddau*

O ran *trefnu digwyddiadau/gweithgareddau i alluogi dinasyddion i ymwneud â chynllunio gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi grwpiau defnyddwyr i roi mewnbwn i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus* a *gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat i annog dulliau cynllunio cyfranogol,*
bu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn nifer o ardaloedd yr astudiaethau achos rôl bwysig yng ngwaith ymgysylltu y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn hybu gwaith is-grwpiau ymgysylltu.

Serch hynny, yn gyffredinol awgrymodd ymchwil yr astudiaethau achos y bu llinyn llais dinesydd Creu'r Cysylltiadau yn gymharol gyfyngedig. Yn rhannol roedd hyn yn adlewyrchu'r farn fod partneriaid yn y sector cyhoeddus yn 'edrych ar i mewn' yn hytrach nag ar i allan yn nhermau ail-lunio gwasanaethau cyhoeddus, yn rhannol mae'n adlewyrchu gwaith mewn mannau eraill o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol i hyrwyddo llais y dinesydd (e.e. drwy'r rhaglen Lleisiau Lleol[63] neu gan y Cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant). Mewn rhai ardaloedd, o leiaf, roedd hefyd yn adlewyrchu amheuaeth (ar ran rhai cyfweleion Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn ogystal â chyfranwyr o'r sector cyhoeddus) os mai Cynghorau Gwirfoddol Sirol, fel sefydliadau'n cynrychioli cyrff trydydd sector, oedd yn y lle gorau i wneud hyn.

Cadarnhaodd cam olaf y gwaith maes mewn o leiaf un ardal astudiaeth achos bod y swyddog Creu'r Cysylltiadau'n weithgar yn hwyluso gwaith yn cynnwys cyrff trydydd sector a hefyd ddefnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion yn

[63] Rhaglen a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ac yn rhoi adnoddau i rai Cynghorau Gwirfoddol Sirol ariannu portffolio o brosiectau a anelai gynyddu mewnbwn defnyddwyr gwasanaethau i ddylunio gwasanaethau.

symud ymlaen â chynllun gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol gyda'r nod o drin disgwyliad bywyd isel iawn mewn un rhan o'r ardal, prosiect a ystyriai rhanddeiliaid cenedlaethol yn enghraifft neilltuol o gadarnhaol o dreialu ffordd newydd o weithio. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill bu llai neu ddim ymgyfraniad gweithredol gyda'r rhan yma o agenda Creu'r Cysylltiadau ers y gwerthusiad ffurfiannol. Yn yr un ardal hon, fodd bynnag, daethpwyd â'r panel ymgysylltu â dinasyddion a fu'n is-grŵp o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol dan arweiniad y Cyngor Gwirfoddol Sirol i ben fel rhan o ad-drefnu trwyadl ar strwythurau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Roedd elfennau eraill cam olaf y gwaith maes yn tanlinellu y bu maint yr ymgyfraniad gyda'r materion hyn yn amrywiol iawn. I rai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws, fel gyda rhai cyfweleion astudiaethau achos, roedd tensiwn rhwng rôl y Cyngor Gwirfoddol Sirol fel corff yn cynrychioli’r trydydd sector a'r dymuniad i gynrychioli defnyddwyr gwasanaethau. Roedd rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn bendant wedi penderfynu mai uchelgais hirdymor yn hytrach na rhywbeth y medrid ei drin yng nghyfnod byr y prosiect oedd cryfhau llais y dinesydd. Ond i eraill, gwaith ar lais y dinesydd, yr agwedd gyffredinol at ddylunio gwasanaeth a darbwyllo'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol i gynnwys dinasyddion wrth ddylunio gwasanaethau fu prif ffocws eu gwaith. Tanlinellwyd hyn hefyd gan un Prif Swyddog a ymatebodd i'r holiadur a bwysleisiodd fod y rôl yn ei Gyngor Gwirfoddol Sirol ef, yn wahanol i eraill, wedi

> ‘canolbwyntio ar ddinasyddion a chymunedau, felly cawsom lai o broblemau nag eraill yn nhermau rôl dyblygu staff eraill y Cyngor Gwirfoddol Sirol ac, rwy'n credu, well canlyniadau.’

Yn nhermau *cefnogi cyrff trydydd sector i ymgysylltu'n effeithlon gyda defnyddwyr gwasanaeth,* bu'n ofynnol i bob swyddog Creu'r Cysylltiadau gynorthwyo gyda threfnu hyfforddiant ar gyfer y sector gan Cyfranogaeth Cymru yn y 10 Egwyddor a dulliau ar gyfer ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae adborth o ardaloedd yr astudiaethau achos yn awgrymu y bu presenoldeb rhesymol yn yr hyfforddiant yma ac iddo gael ei groesawu ac yng ngham olaf y gwaith maes, dywedodd un swyddog

astudiaeth achos, mewn ymateb i'r galw a symbylwyd gan yr hyfforddiant, ei bod wedi datblygu a chyflwyno cwrs hyfforddiant pellach i 11 corff ar ddulliau a thechnegau ymgysylltu.

*3.5.2 Allbynnau*

Ni osodwyd unrhyw dargedau ffurfiol ar gyfer y prosiect gyda WEFO sy'n cyfeirio at y maes gweithgaredd yma. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, ym mhob ardal astudiaeth achos, arweiniodd Creu'r Cysylltiadau fel prosiect at allbynnau yn nhermau *cyrff (trydydd sector/sector cyhoeddus) a hyfforddwyd i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth/cynllunio cyfranogol,* gyda ffocws yn bennaf ar gyrff trydydd sector, tra bu gan Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd o leiaf ran mewn nifer o *ddigwyddiadau ymgynghori a drefnwyd/fynychwyd.* Er enghraifft, mewn un o'r ardaloedd astudiaethau achos yn y gwerthusiad cam olaf, roedd hyn wedi cynnwys digwyddiad ymgysylltu proffil uchel a drefnwyd ar y cyd gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

*3.5.3 Canlyniadau*

Yn gyffredinol, nid yn lleiaf drwy hyfforddiant Cyfranogaeth Cymru, mae'n debyg y gwnaeth Creu'r Cysylltiadau gyfraniad bach at *gynyddu gallu'r trydydd sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth.* Fodd bynnag, ar gyfer yr ardaloedd astudiaeth achos hynny oedd â phrosiectau Lleisiau Lleol (tri allan o'n pump), mae'n debygol mai'r rhaglen ddiweddaraf yma fu'r prif ffocws yn nhermau ymgysylltiad Creu'r Cysylltiadau gyda'r agenda.

Fodd bynnag, teimlai rhanddeiliaid cenedlaethol fod hwn yn faes lle cyflawnwyd llawer. Yn eu barn hwy, roedd y gwaith gyda Cyfranogaeth Cymru yn ddi-os wedi codi mwy o ymwybyddiaeth a sicrhau arfer da mewn ymgysylltu â'r cyhoedd ar ran cyrff trydydd sector, ac fel y nodwyd bu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau ran bwysig yn aml mewn strategaethau ymgysylltu Byrddau Gwasanaethau Lleol oedd yn cynnwys ymgysylltu â dinasyddion yn ogystal â rhanddeiliaid. Gwaddol pwysig arall i'r prosiect oedd ymgyfraniad swyddogon y WCVA a Creu'r Cysylltiadau yng ngwaith

Llywodraeth Cymru yn datblygu asesiad anghenion ar gyfer strategaethau llesiant yn y dyfodol, lle'r oedd y WCVA wedi paratoi cynigion ar God Ymarfer ar Ymgysylltu â Dinasyddion oedd yn debygol o fynd ymlaen fel rhan o'r canllawiau ar gyfer y strategaethau hyn. Pwysleisiodd prif swyddog y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn yr ardal lle'r oedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi canolbwyntio bron yn llwyr ar ymgysylltu â dinasyddion fod y gwaith hwn wedi gadael gwaddol o :

> ‘sgiliau, offerynnau a dulliau sy'n awr yn cael eu defnyddio i ddatblygu ein sefydliad a chefnogi'r sector - fodd bynnag, rydym hefyd wedi colli'r person a fyddai wedi bod orau i fynd â hyn yn ei flaen'.

**3.6 Effeithiau**

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Mae dynodi effaith yn her, oherwydd natur hirdymor ac eang y newid a geisir gan Creu'r Cysylltiadau a diffyg gwrthffeithiol.

Er bod rhai enghreifftiau o fewn yr ardaloedd astudiaeth achos o ble bu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau rôl wrth gefnogi symud tuag at ymyriadau cynnar, mae'n debyg mai cyfraniad cymedrol a gafodd y prosiect yn ei gyfanrwydd.

Roedd hyn hefyd yn wir yng nghyswllt y nod o sicrhau mwy o wasanaethau yn canolbwyntio ar ddinasyddion, lle ymddengys fod Creu'r Cysylltiadau wedi gweithredu mewn cyd-destun anffafriol iawn ond serch hynny mewn rhai achosion wedi sicrhau newidiadau cronnus neu leol iawn.

Yn olaf, yn nhermau trydydd sector mwy cynaliadwy, ychydig o dystiolaeth oedd y bu Creu'r Cysylltiadau yn ddigon i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn wyneb pwysau gwrthbwysol cryf fel canlyniad uniongyrchol neu uniongyrchol i doriadau mewn gwariant cyhoeddus.

Gan droi at effeithiau disgwyliedig y prosiect, mae'n bwysig yn gyntaf i wneud nifer o *gafeatau.*

Y cyntaf yw mai prosiect tymor byr oedd Creu'r Cysylltiadau ond gydag uchelgais i sicrhau newid hirdymor. O'r herwydd, efallai mai dim ond ar ôl i'r prosiect ddod i ben y byddai effeithiau o'r fath yn amlwg.

Yr ail yw bod y newidiadau a geisid yn bellgyrhaeddol ond cyfyngedig ac mae'n debyg y bydd ystod eang o ffactorau allanol wedi dylanwadu ac effeithio arnynt. Mae'r prosiect hefyd yn gymedrol yn nhermau maint: mae adnodd Creu'r Cysylltiadau yn llai na 5% o'i gyfanswm adnoddau yn hyd yn oed y Cyngor Gwirfoddol Siriol lleiaf yn yr astudiaethau achos.

Yn drydydd, mae'n amhosibl modelu'r gwrthffeithiol mewn unrhyw ffordd real, mewn geiriau eraill, yr hyn fyddai wedi digwydd oni bai am fodolaeth y prosiect, sy'n gam hanfodol wrth asesu effaith. Mae'n bwysig felly bod yn ymwybodol hyd yn oed lle na ddigwyddodd y newidiadau a ddymunid - neu lle mae pethau mewn gwirionedd wedi symud yn y cyfeiriad arall - ei bod o leiaf yn bosibl y byddai pethau wedi bod yn waeth oni bai am fodolaeth y prosiect.

Gan droi'n gyntaf at p'un ai yw'r prosiect wedi cynorthwyo *symud tuag at ymyriadau cynnar gan ostwng yr angen am wasanaethau aciwt,* mae'n sicr y bu rhai enghreifftiau cadarnhaol o fewn yr astudiaethau achos lle gallai ymyriadau Creu'r Cysylltiadau fod wedi helpu i gyflawni hyn. Mae'n sicr y gellid disgwyl y byddai'r gwaith mewn dwy ardal astudiaeth achos i alluogi gwell cyfeirio at wasanaethau cymorth trydydd sector ar gyfer pobl hŷn ac (mewn un ardal) bobl ifanc i gyfrannu at hyn dros gyfnod, er y gallai prosiect yn treialu dull cydweitho at gynyddu disgwyliad oes mewn trydedd ardal hefyd arwain at ganlyniadau tebyg. Fodd bynnag, nid oedd y buddion o'r rhain wedi dechrau dod i'r amlwg hyd yma a, gyda'i gilydd, mae'n debygol mai cyfraniad cymharol fychan fu un Creu'r Cysylltiadau.

Mae hyn hefyd yn debyg o fod yn wir yng nghyswllt y cyfraniad tuag at sicrhau *gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar y dinesydd a gafodd eu*

*cynllunio'n well a'u darparu'n fwy effeithlon,* lle mae tystiolaeth o'r astudiaethau achos yn awgrymu, er ymdrechion gorau swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn rhai ardaloedd, mai cymharol ychydig o newid fu o ran ymarfer comisiynu, er y gall y cynnydd ym mynediad grwpiau trydydd sector i wneuthurwyr penderfyniadau a hwyluswyd gan Creu'r Cysylltiadau, os y'i cynhelir, arwain yn y tymor hwy at newid cadarnhaol. Cadarnhaodd cam olaf yr ymchwil y farn fod y newidiadau a sicrhawyd i raddau helaeth yn gronnus (camau ar y ffordd i newidiadau diwylliannol tymor hwy) a/neu yn lleol i raddau helaeth (drwy waith penodol iawn a wnaethpwyd gyda, er enghraifft, ysgol) er y credai un Prif Swyddog o ardal lle'r oedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â dinasyddion:

> ‘mae'r gwaith wedi trawsnewid pethau yn [enw'r ardal awdurdod lleol] ond mae wedi dibynnu ar gysylltiadau cefnogol a chydlynu gyda [awdurdod lleol].... arweiniodd at newid agwedd tuag at ymgysylltu dinasyddion yn ystyrlon wrth ddatbygu , dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus'.

Yn olaf, yn nhermau *trydydd sector mwy cynaliadwy,* ychydig o dystiolaeth sydd y bu Creu'r Cysylltiadau yn ddigon i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn wyneb pwysau gwrthbwysol cryf fel canlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

### 3.7 Arfer Da

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Ymddengys y bu Creu'r Cysylltiadau yn fwy llwyddiannus lle canolbwyntiodd ar ystod gymharol gur o elfennau o fewn rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau yn gyffredinol, oedd yn adlewyrchu sgiliau ac arbenigedd unigol deiliad y swydd, a lle cafodd gwaith swyddog Creu'r Cysylltiadau ei integreiddio'n effeithlon gydag adnoddau eraill o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol. Roedd llwyddiant hefyd yn dibynnu ar gysylltiadau da a fodolai eisoes rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol.

| |
|---|
| Mae profiad mewn un ardal astudiaeth achos yn awgrymu y gallai fod yn anodd cynnal rhai o'r enillion a sicrhawyd, o gofio am faint y newid sy'n mynd rhagddo mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol. |

Fel y nodwyd yn ein gwerthusiad ffurfiannol, ymddengys y bu Creu'r Cysylltiadau yn fwy llwyddiannus mewn dwy o'r pum ardal astudiaeth achos ac ymddengys y medrir priodoli hyn i:

- ganolbwyntio ar ystod cymharol gul o elfennau o fewn rôl gyffredinol swyddog Creu'r Cysylltiadau;
- integreiddio gwaith swyddog Creu'r Cysylltiadau'n effeithlon gyda'r adnoddau eraill sydd ar gael i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a sicrhau cyfathrebu ardderchog gyda chydweithwyr eraill o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol;
- defnyddio sgiliau unigol ac arbenigedd y swyddog yn effeithlon a 'chwarae i'w cryfderau';
- manteisio ar y berthynas dda sy'n bodoli eisoes rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol

Fodd bynnag, yn ystod cam olaf y gwaith maes, roedd y swyddog wedi gadael ei swydd yn gynnar yn un o'r ardaloedd hyn, ac roedd hyn, ynghyd â newidiadau sylweddol eraill yng nghyd-destun y Cyngor Gwirfoddol Sirol (prosiectau eraill yn dod i ben, gan arwain at grebachu mawr yn y staffio cyffredinol) a'r awdurdod lleol (ailstrwythuro gweithio partneriaeth ac adolygu'r holl gyllid trydydd sector) eisoes yn arwain at ddatod peth o'r hyn a gyflawnwyd.

Tueddai rhai a gymerai ran mewn grwpiau ffocws a rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd i danlinellu fod y prosiect gwreiddiol (a adlewyrchwyd yn nisgrifiadau swydd swyddogion Creu'r Cysylltiadau) yn llawer rhy uchelgeisiol, a bod y swyddogion wedi llwyddo orau lle'r oeddent wedi gweithio ar gynfas culach, wedi canolbwyntio ar elfennau penodol y disgrifiad swydd oedd yn fwyaf addas yn lleol ac wedi ailstrwythuro swyddi yn y modd mwyaf cydnaws â chydweithwyr oedd eisoes yn eu swyddi:

> ‘Fe wnaethom ganolbwyntio o'r dechrau nid ar y trydydd sector - gan fod gennym adnoddau eraill i wneud hynny - ond ar ymgyfraniad a chyd-gynhyrchu' (Cyngor Gwirfoddol Sirol heb fod yn astudiaeth achos)

Gan adlewyrchu'r farn fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gyffredinol wedi llwyddo - o leiaf yn rhan ddiwethaf y prosiect - i deilwra'r gwaith i fod yn gydnaws gydag anghenion lleol, dywedodd un rhanddeiliad cenedlaethol:

> ‘Mae'r rhan fwyaf o Gynghorau Gwirfoddol Sirol wedi cael cymaint ohono ag y gallent - hyd yn oed mewn ffyrdd nad oedd bob amser yr un fath â'r rhai yn achos busnes WEFO'.

### 3.8 Rhwystrau

| ***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL*** |
|---|
| Mae ystod eang o ffactorau wedi gweithredu fel rhwystrau i brosiect Creu'r Cysylltiadau wireddu ei botensial yn llawn. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â bod y prosiect wedi ei gynllunio mewn ffordd rhy uchelgeisiol, perthynas wael mewn rhai achosion rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff statudol, diffyg cynnydd wrth ddatblygu Cynlluniau Integredig Sengl a Byrddau Gwasanaethau Lleol i'r pwynt lle maent yn dechrau dylanwadu ar gomisiynu gwasanaethau, ac effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol toriadau mewn gwariant cyhoeddus. |

Drwy'r gwerthusiad hwn, fe wnaethom ddynodi nifer o ffactorau cyd-destunol a gafodd, yn ein barn ni, effaith niweidiol ar allu Creu'r Cysylltiadau i wireddu ei botensial yn llawn. Roedd cyfran ohonynt yn dal yn ymddangos yn berthnasol yn ystod cam olaf ein gwaith maes

Yn gryno, y ffactorau hyn oedd:

- perthynas anodd a fodolai eisoes rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Seol a'r awdurdod lleol (gydag awdurdodau lleol yn gyffredinol yn cael eu

hystyried fel bod yn rheoli'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, beth bynnag y ddamcaniaeth);

- yr adnoddau oedd ar gael i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac i ba raddau yr oedd agweddau allweddol o ddisgrifiad swydd safonol Creu'r Cysylltiadau oedd - erbyn i'r adeg y daeth y prosiect yn weithredol - eisoes yn cael eu cyflawni gan staff eraill a ariannwyd gan brosiectau a ffrydiau cyllid eraill (er mewn rhai achosion bod hyn yn golygu fod amcanion Creu'r Cysylltiadau yn cael eu cyflawni drwy ddulliau eraill;
- ymdeimlad cryf gan y rhan fwyaf o'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwil fod y rôl fel y'u lluniwyd yn wreiddiol yn or-uchelgeisiol, yn neilltuol o ystyried oes fer y prosiect;
- cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) datblygu'r Cynllun Integredig Sengl, a'r ymdeimlad fod y Cynlluniau Integredig Sengl (a gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fwy cyffredinol) ar wahân i benderfyniadau ymarferol am siâp cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cyhoeddus (gan felly ostwng y cymhelliant i gyrff trydydd sector gymryd rhan);
- effaith toriadau ariannol ar awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yr ystyrid eu bod, yn gysylltiedig gyda chonsyrn cryf o fewn awdurdodau lleol yn neilltuol i osgoi dileu swyddi ar raddau helaeth yn cyfyngu'r parodrwydd i feddwl yn greadigol am ffyrdd y gallai darpariaeth trydydd sector wella gwasanaethau ;
- y trosiant uchel o staff yn y sector cyhoeddus fel sgil-effaith y pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus a'r anawsterau a achosai hyn ar gyfer *cynnal* y cysylltiadau;
- effaith toriadau a'r sefyllfa economaidd anodd ar gyrff trydydd sector eu hunain; yn gostwng eu gallu i ymgysylltu gydag agendâu strategol;
- diffyg eglurdeb yn nhermau ymagwedd y sector cyhoeddus at gomisiynu gwasanaethau cyhoeddus o'r trydydd sector;
- 'malltod cynllunio' yn nhermau penderfyniadau ar gomisiynu gwasanaethau fel canlyniad i ansicrwydd am ddyfodol strwythurau llywodraeth leol a gweithio rhanbarthol.

Roedd cyfranwyr at gam olaf yr ymchwil yn parhau i sôn am y rhwystrau hyn, gydag un o'r prif swyddogion heb fod yn astudiaeth achos yn dweud:

- ‘pan gychwynnodd y prosiect, roedd yr hinsawdd economaidd yn wahanol iawn, yn fwy cadarnhaol a gyda mwy o adnoddau a hyblygrwydd
- mae'r 'momentwm' gan rai partneriaid wedi newid wrth i'w ffocws a blaenoriaethau newid, gan orfod ymdopi â thoriadau difrifol yn y gyllideb a cholledion staff, gan ei gwneud yn anodd cyflawni rhai agweddau o'r rôl
- mae perthnasoedd wedi newid wrth i bersonél allweddol yn ei sefydliad ei hun a sefydliadau partner adael eu swyddi
- weithiau ni chafodd yr ymrwymiad gan swyddogion uwch ei gyfateb gan reolwyr gweithredol yn ymhellach ar hyd y llinell, neu wedi hidlo ar draws egwyddorion gwaith adrannau
- bu'r amserlen ar gyfer y swydd yn rhy fyr; mae hyn y math o rôl sydd angen cyfnod maith er mwyn gwireddu canlyniadau allweddol
- mewn rhai achosion, roedd y gwahaniaeth rhwng rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau a swyddogion datblygu eraill gyda phortffolios penodol wedi dod yn aneglur'.

### 3.9 Rheoli a Chyflenwi Prosiect

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Roedd tensiynau dechreuol rhwng y WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol am weithredu'r prosiect, yn deillio o linellau deuol atebolrwydd swyddogion Creu'r Cysylltiadau i reolwyr llinell mewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac i'r WCVA wedi diflannu i raddau helaeth fel canlyniad dull gweithredu mwy hyblyg y rheolwr prosiect newydd a benodwyd gan y WCVA hanner ffordd drwy'r prosiect.

Fodd bynnag, roedd pryderon am addasrwydd i'r diben y dull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau a ddefnyddiwyd yn parhau hyd yn oed ar ddiwedd y prosiect ac mewn o leiaf ddwy o'r pum ardal astudiaeth achos, ni chredai

swyddogion Creu'r Cysylltiadau iddynt gael cefnogaeth dda gan eu Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

Roedd cytundeb cyffredinol fod ystyried Creu'r Cysylltiadau fel prosiect ar ei ben ei hun ac ar wahân i waith ehangach y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gamgymeriad.

Yn yr adroddiad llinell sylfaen fe wnaethom nodi:

- ym mlwyddyn gyntaf y prosiect roedd tensiynau wedi dod i'r amlwg am fodel cyflogi swyddogion Creu'r Cysylltiadau gyda rheolwyr llinell o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol ond gyda chyfrifoldeb adrodd i reolwr prosiect y WCVA (a thrwy'r swydd yma i dîm rheoli y prosiect ehangach yn Llywodraeth Cymru). Roedd swyddogion (mewn llawer o achosion yn newydd i'r sector) mewn rhai achosion yn ceisio ymdopi gyda dau strwythur gorchymyn ar wahân, gyda gwahanol faterion o gonsyrn a blaenoriaeth, yn rhannol yn adlewyrchu tensiynau ehangach rhwng rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r WCVA, ac yn rhannol yn dangos materion mwy strwythurol tîm rheoli prosiect oedd â ffocws pendant iawn ar y model Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect a Chynghorau Gwirfoddol Sirol oedd eisiau defnyddio adnodd ychwanegol yn hyblyg;
- teimlai llawer o swyddogion a'u rheolwyr llinell yn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd fod y broses o ddatblygu cynlluniau gweithredu unigol a systemau o gardiau oedd yn cydymffurfio ag Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau wedi achosi gormod o waith, ac awgrymu nad oedd cynlluniau gweithredu'n cael eu defnyddio i lywio gweithgaredd ei hunan oherwydd y gofyniad iddynt gynnwys pob un o'r pum canlyniad allweddol, pan yn ymarferol y dymunai Cynghorau Gwirfoddol Sirol deilwra'r rôl i gyfateb â'u hanghenion;
- i raddau helaeth priodolwyd y problemau hyn i'r oedi hir rhwng y syniad gwreiddiol am y prosiect a'r gymeradwyaeth derfynol: yn y cyfamser, roedd llawer o Gynghorau Gwirfoddol Sirol eisoes wedi rhoi trefniadau ar waith i gefnogi mewnbwn trydydd sector i wahanol ffrydiau gwaith

Byrddau Gwasanaethau Lleol ac roedd nifer o brosiectau eraill oedd yn gorgyffwrdd gyda chysyniad gwreiddiol Creu'r Cysylltiadau wedi derbyn cyllid[64];

- ystyrid hefyd bod trosiant staff (o fewn y WCVA a hefyd swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau) yn broblem, er nad yw hynny'n arbennig o annisgwyl o gofio am natur tymor byr, cyfnod penodol y rhan fwyaf o gontractau, tra ystyrid yn gyffredinol bod cyfarfodydd rheolaidd y grŵp swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn ddefnyddiol.

Erbyn amser cam olaf y gwaith maes, roedd rhai o'r pryderon hyn wedi cilio er y soniodd cyfranwyr am yr hyn a deimlent fu'r problemau gwreiddiol. Wrth ymateb i'r holiadur, er enghraifft, soniodd pob un o'r chwe Prif Swyddog am ddiffyg hyblygrwydd digonol wrth bennu rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau ac yn y fframwaith Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau y cytunwyd arni.

> ‘Rwy'n credu fod y proses Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau yn wallus. Pan sefydlwyd y prosiect nid oedd unrhyw weledigaeth glir, rhannu canlyniadau, cydweithio ystyrlon ac nid dim unrhyw wir ymgyfraniad y bobl yr oedd y prosiect yn anelu dylanwadu arnynt (y sector cyhoeddus) neu gyfranogiad dinasyddion/y trydydd sector)' [Prif Swyddog heb fod yn astudiaeth achos'].
>
> ‘Cafodd tua'r chwe mis cyntaf y bûm yma eu gwastraffu gyda chyfarfodydd am dargedau Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau y dylid fod yn eu lle ... nid mater i ni oedd rhoi'r targedau yma'. [Swyddog Creu’r Cysylltiadau mewn astudiaeth achos]]

Dywedodd Prif Swyddogion, rhanddeiliaid cenedlaethol a swyddogion Creu'r Cysylltiadau i'r materion hyn cael eu datrys yn gyffredinol foddhaol oherwydd newid yn rheolwyr prosiect y WCVA, gyda deiliad newydd y swydd, 'rhywun tu mewn i Gyngor Gwirfoddol Sirol' 'wedi gweithredu yn ysbryd ceisio gwneud

[64] Megis Cymunedau Mentrus, Lleisiau Lleol a Cymunedau yn Cydweithio - prosiect Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ne orllewin Cymru a hyrwyddwyd gan Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol i roi cefnogaeth datblygu sefydliadaol i gyrff trydydd sector i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol. Gweler http://www.collaborativecommunities.org.uk/english/about-us.html

iddo weithio' ac wedi dangos mwy o gydymdeimlad i ddefnyddio'r adnodd Creu'r Cysylltiadau yn hyblyg yn ôl anghenion pob Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Yn gyffredinol roedd prosesau rheoli prosiect cadarn hefyd i'w gweld yn rheolaeth ariannol y prosiect, er bod tanwariant bach o tua 5.5% ar gyfanswm cyllideb y prosiect o £2.595 miliwn. Ymddengys fod hyn yn bennaf wedi ymwneud â thanwariant ar staff, oherwydd staff yn gadael eu swyddi'n gynnar wrth i'r prosiect nesáu at ei derfyn, yn ogystal â than-ymrwymiad sylweddol o'r cyllidebau gwreiddiol ar gyfer cefnogaeth ymgynghoriaeth, costau archwilio a chyhoeddusrwydd.

Ar yr un pryd, yn o leiaf ddwy o'r pump ardal astudiaeth achos, teimlai swyddogion Creu'r Cysylltiadau eu hunain hyd yn oed ar ddiwedd y prosiect eu bod wedi eu rhoi ar y cyrion o fewn eu Cynghorau Gwirfoddol Sirol eu hunain a bod hyn wedi cyfrannu at yr hyn a dybient oedd yn ddiffyg llwyddiant cyffredinol. Mewn un, soniodd swyddog Creu'r Cysylltiadau y bu 'diffyg dealltwriaeth a hyrwyddo'r rôl o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol' ac amharodrwydd rheolwyr eraill i 'gydweithio a allai fod wedi'i gwneud yn bosibl cyflawni targedau ar y cyd yn arbennig ar gydraddoldeb a'r amgylchedd' yn rhwystr. Yn y llall, teimlai swyddog Creu'r Cysylltiadau iddi gael ei thraed oddi tani tuag at ddiwedd y prosiect drwy weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn hytrach na disgwyl cefnogaeth neu arweiniad gan ei rheolwr llinell a hyd yn oed yn ddiweddar nid oedd wedi ymwneud â chyfarfod allweddol rhwng ei Phrif Swyddog a staff cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Yn yr ail o'r rhain, er y teimlai'r swyddog fod staff y WCVA wedi bod yn gefnogol yn gyffredinol, teimlai y gallent fod wedi gwneud mwy i ddatrys anawsterau gyda'i rheolwr llinell.

Roedd y farn ar y fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn gymysg. Credai rhai rhanddeiliaid cenedlaethol ac o leiaf dri o Brif Swyddogion Cynghorau Gwirfoddol heb fod yn astudiaethau achos a ymatebodd i'r holiadur ei fod yn parhau'n anhyblyg ac yn ddi-fudd, ac yn anaddas i'r hyn oedd mewn gwirionedd yn gynllun meithrin gallu:

> ‘Rwy'n cofio fod y broses o lenwi'r fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn feichus ac nid wyf yn siwr pa mor fuddiol yr oedd yn nhermau ein galluogi i fesur y canlyniadau'.

> ‘Ni wnaeth y broses Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau weithio'n dda gan fod cymaint o fersiynau'n dod gan y WCVA ... Doeddwn i ddim angen y broses i weld beth oedd yn gweithio'n dda yn nhermau gweithgaredd. Y cyfan oedd angen i mi wneud oedd edrych ar y dalenni gweithgaredd a'r adborth gan gleientiaid.'

Fodd bynnag, teimlai eraill nad oedd y fframwaith a ddefnyddiwyd yn y pen draw yn ddim mwy beichus nag unrhyw system fonitro arall y byddid wedi bod ei hangen i gyflawni gofynion WEFO. O'n harsylwadau ein hunain, er ei bod yn ddi-os bod y cardiau adrodd yn cynnwys llawer o wybodaeth a manylion defnyddiol ar weithgareddau swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau ac wedi galluogi'r WCVA i gael data perthnasol i fesur cynnydd ar dargedau, ymddangosai fod dull gwahanol Gynghorau Gwirfoddol Sirol/swyddogion at eu llenwi yn amrywio llawer iawn, gan ei gwneud yn eithaf anodd canfod pethau oedd yn cyffredin a gwneud cymariaethau ystyrlon rhyngddynt.

Un farn a fynegwyd yn llawer mwy cyson gan randdeiliaid yng ngham olaf y gwaith maes nag ynghynt oedd y bu'n gamgymeriad ystyried Creu'r Cysylltiadau fel prosiect ar wahân, gan fod llawer o agweddau'r disgrifiad swydd mewn gwirionedd yn gynhenid i rôl y Cyngor Gwirfoddol Sirol. Er ei bod yn ddi-os fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol wedi bod angen ac wedi manteisio o'r gallu ychwanegol, dywedwyd y dylai fod wedi bod yn llawer mwy eglur sut y disgwylid i'r adnodd ychwanegu gwerth i adnoddau presennol ar ddechrau'r prosiect. Yn gysylltiedig â hyn, ystyrid bod yr yr amserlenni byr - a'r ffaith ym mron bob achos, bod swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau wedi eu recriwtio ar gontractau byr, cyfnod penodol - yn anghydnaws â'r agenda oedd yn ceisio sicrhau newid diwylliannol hirdymor a dwfn, ac oedd yn dibynnu ar i ddeiliad y swydd adeiladu perthynas gyda gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol yn y sector cyhoeddus.

Yn wir, thema gyffredin o ardaloedd yr astudiaethau achos a gan randdeiliaid cenedlaethol yn neilltuol oedd, tra credid yn gynnar yn y prosiect iddo ddod yn rhy hwyr, credid yn awr iddo ddod yn rhy gynnar. Mewn un ardal astudiaeth achos, lle bu cynnydd araf wrth ddatblygu'r Cynllun Integredig Sengl a sicrhau eglurdeb am sut y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gweithio, dywedodd pob un o'r tri chyfrannwr yn y cam olaf y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael 'rhywun yn y fan a'r lle' dros y deuddeg mis diwethaf er mwyn 'gwneud y cysylltiadau' ac felly, helpu i roi cynlluniau gweithgorau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar waith, ac mewn ardal arall, lle'r oedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi gadael, dywedodd cyfwelai o Gyngor Gwirfoddol Sirol:

> 'Mae'n ddigalon ein bod wedi agor drysau, pobl yn holi am bethau y gallem eu gwneud, ond nid wyf yn siŵr fod gennym y gallu nawr i ddarparu yn y dyfodol.'

Adleisiwyd hyn gan Brif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Sirol heb fod yn astudiaeth achos a ddywedodd mai'r prif rwystr fu:

> 'Ceisio esbonio arwyddocâd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyrff trydydd sector a sicrhau eu diddordeb a'u cyfranogiad wrth ddarparu gwahanol weithgareddau megis ymgynghoriadau neu brosiectau ... Mae'r cyllid yn dod i ben a finnau'n gweld ein bod yn gwneud cynnydd, ac mae hynny'n creu drwgdeimlad yn y cymunedau a wasanaethwn ac yn creu gwrthwynebiad i unrhyw raglen "newydd" y gall Llywodraeth Cymru ei chyflwyno yn y dyfodol.'

### 3.10 Sylwadau ar y Dyfodol

| ***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL*** |
|---|
| Roedd cytundeb clir gan gyfranwyr y cyfnod olaf (y rhan fwyaf ohonynt o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol) fod angen yn parhau am rôl o fath Creu'r Cysylltiadau, ond y dylai hyn gael ei hintegreiddio'n agosach â gwaith cyffredinol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'i hariannu o gyllid seilwaith Llywodraeth Cymru (er gydag amheuon os oedd y cyllid oedd ar gael yn ddigonol). |

Fodd bynnag credai cyfranwyr at yr ymchwil yn gyffredinol fod angen newid diwylliant sylfaenol ar ran partneriaid yn y sector cyhoeddus - yn neilltuol awdurdodau lleol - er mwyn sicrhau newidiadau i ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yr oedd Creu'r Cysylltiadau wedi anelu eu cyflawni.

Yn gysylltiedig â'r pwynt olaf hwn, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfrannodd at gam olaf yr ymchwil bod angen parhau i ariannu'r gwaith a wnaethpwyd gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau dros dymor hwy - er y dylid cydnabod fod mwyafrif helaeth y cyfranwyr hyn o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

Mewn dwy o'r ardaloedd astudiaeth achos, roedd Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gofyn i awdurdodau lleol ariannu'r swydd yn y dyfodol - ond roedd canlyniad hyn yn ansicr ac yn un ohonynt, teimlai'r cyfwelai awdurdod lleol fod gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol eisoes ddigon o allu i gynnal lefelau rhesymol o ymgysylltu.

Dywedodd rhai a gymerodd ran yn un o'r grwpiau ffocws fod angen parhau'r rôl, ond gyda chydnabyddiaeth na fyddai cyfeiriad meddwl y Byrddau Gwasanaethau Lleol yng nghyswllt dylunio gwasanaethau ac ymgysylltu trydydd sector yn ateb cyflym, oedd yn dadlau dros wneud swyddogaeth Creu'r Cysylltiadau yn fwy am ddarpariaeth prif ffrwd/creiddiol, tra ysgrifennodd Prif Swyddog Creu'r Cysylltiadau:

> ‘Mae angen i ni roi cyllid Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn y brif ffrwd fel bod unrhyw swyddog Creu'r Cysylltiadau a'r cymunedau yn gwybod fod y swydd yno cyhyd ag mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bodoli neu hyd nes bydd gwerthusiad yn cadarnhau nad yw Creu'r Cysylltiadau bellach yn cynnig gwerth am arian'.

Derbyniodd y rhan fwyaf, yn cynnwys yr holl rhanddeiliaid cenedlaethol a holwyd, y ddadl a gyflwynwyd yn ein gwerthusiad ffurfiannol mai'r lle mwyaf priodol i gynnwys cyllid y swyddi hyn fyddai o fewn y cyllid creiddiol gan Lywodraeth Cymru, er i nifer gwestiynu os oedd hyn yn realistig ar amser pan

oedd y Llywodraeth yn glir yn anelu i ostwng y Grant Seilwaith: dywedodd rhai a gymerodd ran mewn grŵp ffocws arall, pe byddai hyn yn digwydd yna byddai angen trefniadau i a) gynyddu'r grant a b) sicrhau fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol mewn gwirionedd yn defnyddio'r adnoddau ar gyfer y diben penodol iawn yma: awgrymodd rhai na fyddai Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar eu pen a'u pastwn eu hunain yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn o gymharu â dyweder cynnig gwasanaethau oedd yn fwy gwerthfawr ar unwaith i'w haelodau.

Ar yr un pryd roedd cytundeb cyffredinol fod angen rhoi mwy o hyblygrwydd i Gynghorau Gwirfoddol Sirol am sut i ddefnyddio adnoddau nag a gafwyd gyda phrosiect Creu'r Cysylltiadau - fel y dywedodd un Prif Swyddog heb fod yn astudiaeth achos:

> 'Gorau yn y byd po fwyaf o hyblygrwydd sydd yn y rôl'.

Credai rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws a rhanddeiliaid cenedlaethol y bu perthynas waith llai agos rhwng swyddogion Creu'r Cysylltiadau a staff cefnogaeth y Byrddau Gwasanaethau Lleol nag a ddymunid ac nac y medrid bod wedi'i ddisgwyl o gofio fod y ddau yn y pen draw yn cael eu hariannu o brosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

O fewn y grwpiau ffocws, roedd peth trafodaeth pe byddai cyllid yn cael ei brif ffrydio, y dylid cadw unrhyw swyddi penodol math Creu'r Cysylltiadau o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol neu os byddai'n synhwyrol eu cyd-leoli gydag ysgrifenyddiaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol o fewn awdurdodau lleol, neu hyd yn oed ysgrifenyddiaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol ar wahân: tra credai rhai cyfranogwyr fod dadleuon o blaid newid strwythurol o'r fath (yn neilltuol os symudid ysgrifenyddiaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol i awdurdodau lleol), credai'r rhan fwyaf ei bod yn hanfodol fod staff yn parhau i fod yn seiliedig o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol os oeddent i gadw ymddiriedaeth a hyder cyrff trydydd sector. Ar yr un pryd, cydnabu rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws fod problem gyda chyrff mwy yn y trydydd sector nad oedd wedi ymgysylltu gyda neu gael eu cynrycholi gan

Gynghorau Gwirfoddol Sirol a theimlad cryf fod gan rai ohonynt ymddygiad gwirioneddol 'reibus' yn gysylltiedig gyda diwylliant yn hollol estron i gyrff trydydd sector mwy lleol - yn aml yn cynnwys defnyddio cadwyni cyflenwi lleol ar delerau anffafriol. Credai'r grŵp yma y gallai'r WCVA fod â rôl yma wrth drefnu gwaith gyda'r cyrff mwy yma ac efallai ddatblygu cod ymarfer am sut i weithio gyda chyrff lleol llai ar ddarparu gwasanaethau.

Yn nhermau newid mwy cyffredinol y gellid bod ei angen i oresgyn rhai o'r rhwystrau a brofodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn nhermau eu cylch gorchwyl craidd o gynyddu ymgysylltiad y trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddusrwydd, roedd y rhan fwyaf o gyfweleion y cam olaf yn gryf o'r farn fod angen newid sylfaenol o'r brig i lawr yn niwylliant awdurdodau lleol. Credid y byddai hyn yn golygu fod angen ffyn mwy - ar ffurf deddfwriaeth neu reoleiddiad - neu foron - ar ffurf cymhellion ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Felly, dywedodd Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Sirol un astudiaeth achos (a adleisiwyd gan o leiaf ddau arall) fod angen newid sylweddol yn niwylliant gwleidyddol Cymru yn gyffredinol. Yn neilltuol, credai fod arweinwyr sector cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i arbed swyddi sector cyhoeddus dros arbed gwasanaethau cyhoeddus ac y byddai angen i'r agwedd yma newid os oedd awdurdodau lleol i fod ag ymrwymiad diffuant i ddefnyddio proses Byrddau Gwasanaethau Lleol yn effeithlon. Teimlai nad oedd gan awdurdodau lleol ac (oherwydd eu diffyg arweinyddiaeth) gyrff sector cyhoeddus eraill hyd yma ymrwymiad gwirioneddol i brosesau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl a phe byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i'w hyrwyddo y byddent yn dod i ben mewn dim o dro.

Credai rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws hefyd fod Llywodraeth Cymru mewn lle unigryw o dda i gryfhau rôl ac annibyniaeth Byrddau Gwasanaethau Lleol, a sicrhau fod polisïau presennol fel y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd rhai rhanddeiliaid yn obeithiol bod newid ar y ffordd, gydag un Prif Swyddog (heb fod yn astudiaeth achos) yn siarad am yr arwyddion cadarnhaol yng nghyswllt sicrhau ymgysylltiad y gymuned a'r cyhoedd mewn penderfyniadau a ddangosir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn anerchiad y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i Gynhadledd Flynyddol y WCVA.

Fodd bynnag, holodd nifer fach o gyfranwyr os medrid byth sicrhau newid o'r brig i lawr ac, yn neilltuol, os yw parhau i ganolbwyntio ar gaffaeliad mwy tryloyw a meithrin gallu'r trydydd sector i fanteisio o hyn yn gwneud synnwyr mewn hinsawdd o doriadau mawr mewn cyllidebau a symudiad cynyddol o fewn y trydydd sector yn ôl i ffocws ar weithredu cymunedol yn hytrach na mwy o broffesiynoli. Tybiai'r cyfranwyr hyn os mai'r hyn oedd ei angen oedd newid sylfaenol tuag at rymuso gweithwyr rheng-flaen, yn y sector cyhoeddus a hefyd y trydydd sector - i gydweithio’n llawer mwy hyblyg a lleol, ond gan gydnabod y byddai hyn yn golygu mwy fyth o symud polisi ymaith o reolaeth o'r brig i lawr, a gâi ei yrru gan dargedu ac osgoi risg mewn gwasanaethau cyhoeddus.

# 4. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

O ran llunio casgliadau o'r ymchwil, ystyriwn yn eu tro bob un o'r nodau a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad ar y cychwyn.

Gan droi'n gyntaf at **y newid yn rôl y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau lleol a'r cyflenwad a'r galw am wasanaethau trydydd sector,** ychydig o dystiolaeth a welsom yn ein hymchwil astudiaethau achos fod rôl y trydydd sector mewn darparu gwasanaethau lleol fel asiant cyrff sector cyhoeddus yn cynyddu: yn wir, ymddengys fod toriadau sector cyhoeddus o leiaf yn y tymor byr yn fwy cyffredinol yn ganlyniad dileu cyllid drwy gytundebau lefel gwasanaeth a grantiau i'r trydydd sector, tra nad yw cyfleoedd i'r rhan fwyaf o gyrff trydydd sector i sicrhau contractau taledig drwy gomisiynu wedi tyfu: yn wir, mewn rhai achosion, mae pwysau i ddiogelu swyddi sector cyhoeddus yn arwain at dueddiad i wneud swyddi'n fewnol a arferai gael eu gwneud yn allanol gan y trydydd sector.

Y mae, fodd bynnag, ddeuoliaeth rhwng nifer cymharol fach o gyrff mwy yn y trydydd sector, nad yw llawer ohonynt yn ystyried bod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn eu cynrychioli ac sydd mewn sefyllfa cymharol gref i gystadlu am dendrau cyhoeddus - a mwyafrif helaeth y sector.

Mae'n debyg bod cyfleoedd - neu efallai'n fwy cywir, heriau - i'r trydydd sector gamu mewn i ddarparu gwasanaethau fel llyfrgelloedd - lle mae'r sector cyhoeddus yn encilio oherwydd na allant mwyach gynnal lefelau cyllid - yn tyfu, ond mae rhwystredigaeth eang o fewn y sector ar y dybiaeth y gall ddarparu gwasanaethau'n rhatach. Ar yr un pryd, mae'n ddi-os y bu rhai enghreifftiau cadarnhaol o Creu'r Cysylltiadau yn gweithio gyda chymunedau lleol i ymateb i'r heriau hyn.

Ychydig o dystiolaeth sydd fod newidiadau yn cyfrannu at wneud y trydydd sector yn **fwy cynaliadwy,** er bod rhai rhanddeiliaid yn credu fod y newidiadau yn yr amgylchedd cyllido yn gwneud i rai sefydliadau edrych ar y cydbwysedd rhwng staff cyflogedig a staff gwirfoddol a chamu'n ôl o

'broffesiynoli' y sector a welwyd yn nodwedd dros tua'r ugain mlynedd ddiwethaf.

Oherwydd na fydd unrhyw gynnydd sylweddol yn rôl y sector yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, ychydig o dystiolaeth a welsom o unrhyw effeithiau ar **gynllunio gweithlu a sgiliau** yn y trydydd sector. Mae'n sicr fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn rhai ardaloedd wedi cyfrannu a chynyddu gweithgaredd hyfforddiant Cynghorau Gwirfoddol Sirol (er yr ymddengys y bu hyn yn llai na'r disgwyl, oherwydd argaeledd adnoddau eraill a staff â ffocws ar ddatblygu sefydliadol o fewn rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol), ond tanseiliwyd gwerth peth o'r hyfforddiant yma a ganolbwyntiodd ar feithrin gallu i dendro am wasanaethau oherwydd diffyg cyfleoedd i weithio o'r sector cyhoeddus, neu natur ymarfer comisiynu, yn neilltuol ar ran awdurdodau lleol.

Mae'n rhaid bod amheuaeth am **gynaliadwyedd y berthynas ac adeiladu rhwydwaith a gweithgareddau eraill swyddogion Creu'r Cysylltiadau tu hwnt i oes y Prosiect.** Mae'r rhan fwyaf o swyddogion Creu'r Cysylltiadau (yn ôl y disgwyl) wedi buddsoddi llawer o amser yn adeiladu perthynas lefel waith rhwng y Byrddau Gwasanaeth Lleol a'r partneriaethau oddi tanynt, ond mae strwythurau a phersonél y Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi bod (ac yn parhau i fod) yn y pair, a lle sefydlwyd perthynas dda mae'n amheus os cânt eu cynnal yn y tymor canol. Yn wir, mewn un o'r ardaloedd astudiaeth achos lle'r oedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi gadael yn gynnar, a lle adeg ein gwerthusiad ffurfiannol yr ymddangosai Creu'r Cysylltiadau yn fwyaf llwyddiannus, roedd yn glir fod y systemau a pherthnasoedd a sefydlwyd eisoes wedi gwanhau ar ôl llai na chwe mis. Efallai nad yw hyn yn syndod: a gellid dadlau os oedd erioed yn realistig ceisio adeiladu perthnasoedd cynaliadwy cryf drwy brosiect tymor byr, yn bennaf yn ymwneud â swyddogion ar gontractau cyfnod sefydlog byr. Yn wir, yn rhai o'n hardaloedd astudiaethau achos, mae'n glir i reolwyr Cynghorau Gwirfoddol Sirol o'r dechrau gydnabod fod hyn yn broblem ac wedyn gyflogi eu swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn weithredol yn hytrach nag yn strategol.

Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod mewn rhai achosion o leiaf, bod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi llwyddo i gynyddu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau o gydweithwyr mewn awdurdodau lleol, a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, am allu'r trydydd sector i gyfrannu'n greadigol at ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Gan droi at **p'un a sut y gwnaeth dylanwad y trydydd sector ar bartneriaethau allweddol a'u gweithgareddau wella drwy weithredu Creu'r Cysylltiadau,** mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai ychydig o newid fu yn nhermau dylanwad y trydydd sector.

Yn yr un modd, cymharol ychydig o dystiolaeth sydd **y bu gwella wrth ddylunio a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus (yn neilltuol o amgylch blaenoriaethau Cynlluniau Integredig Sengl) drwy well integreiddiad o'r trydydd sector,** er fod y broblem yma ddim cymaint â diffygion swyddogion Creu'r Cysylltiadau ond yn hytrach gyda'r diffyg tebygol o gynnydd (a ddynodwyd yn ein hymchwil ni a hefyd yn adroddiad Comisiwn Williams) mewn llawer o ardaloedd mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl yn mynd i'r afael gyda materion manwl dylunio a chynllunio gwasanaethau. Eto, er y byddai'n ymddangos fod enghreifftiau o swyddogon Creu'r Cysylltiadau yn sicrhau enillion byr ond sylweddol yn nhermau dull mwy cydweithiol o ddatblygu cynlluniau a phrosiectau penodol, ychydig iawn o dystiolaeth sydd o newid systemig.

Yn olaf, yn nhermau **ymgysylltu â dinasyddion** wrth sefydlu blaenoriaethau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl a dyluniad a darpariaeth gwasanaethau a rôl Creu'r Cysylltiadau o fewn hyn, mae'n glir mewn llawer achos y bu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau rôl allweddol wrth hybu gwaith ymgysylltu Byrddau Gwasanaethau Lleol, er fod y gallu i ymrwymo diddordeb y trydydd sector a dinasyddion yn fwy cyffredinol wedi amrywio yn dibynnu ar i ba raddau yr ystyrid bod gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ymwneud â phryderon a newidiadau lleol. Yn fwy cyffredinol, er na fu pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gysurus yn gweld eu hunain fel hyrwyddwr naturiol llais dinasyddion, bu gan lawer o swyddogion

Creu'r Cysylltiadau rôl ddefnyddiol mewn hwyluso hyfforddiant a datblygu sefydliadol ar gyfer cyrff trydydd sector yn nhermau ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaethau, ac mewn un neu ddau achos bu gwaith i rymuso cymunedau lleol yn ganolog i gyflawni'r prosiect.

Yn gyffredinol, credwn er bod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o achosion wedi ychwanegu galluedd oedd ei fawr angen i Gynghorau Gwirfoddol Sirol a chanfod ffyrdd adeiladol o gefnogi cyrff trydydd sector lleol - drwy wella llif gwybodaeth am ddatblygiadau strategol, hwyluso cysylltiadau gyda chyrff sector cyhoeddus, datblygu eu gallu i ymateb i (nifer cymharol fach ) o gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a thrwy gymryd rhan mewn prosiectau ymarferol i ddangos gallu'r trydydd sector i wneud gwahaniaeth - ac er y cafodd y rhan fwyaf o dargedau allbwn eu cyflawni nid yw'r prosiect yn ei gyfanrwydd wedi sicrhau'r canlyniadau a obeithid.

I raddau helaeth mae hyn yn ganlyniad y cyd-destun y gweithredodd y prosiect ynddo, yn arbennig:

- Y cynnydd aml yn araf yn nhermau symud gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymlaen o ddadansoddi anghenion a dynodi materion i ystyried dyluniad a darpariaeth gwasanaethau, a'r ymdeimlad o ddiffyg cysylltiad rhwng y trafodaethau strategol lefel uchel yma a phenderfyniadau comisiynu;
- Tueddiad cyrff cyhoeddus (efallai'n neilltuol awdurdodau lleol) yw troi ar i mewn wrth ymateb i bwysau a ddaw yn sgil toriadau mewn cyllid cyhoeddus, i geisio lleihau colledion swyddi drwy wneud gwasanaethau yn fewnol ac i fod yn llai parod i ystyried dulliau mwy arloesol a phersonol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (mewn geiriau eraill, gydgynhyrchu) yn wyneb pwysau o'r fath;
- Y gostyngiad yng ngallu llawer o gyrff trydydd sector i ymgysylltu gydag agendâu mwy strategol oherwydd effaith toriadau yn eu cyllid eu hunain (ac mewn rhai achosion, alw cynyddol am wasanaethau);
- Yr hyn a ymddengys yn ddryswch ac anghysondeb yn y dull caffael, gyda chyfleoedd cymharol gyfyngedig i gyrff trydydd sector lleol

dendro, a llai byth o gyfleoedd iddynt dendro'n llwyddiannus, i ddarparu gwasanaethau;

- Diffyg cyfatebiaeth rhwng disgwyliadau comisiynwyr sector cyhoeddus y gallai defnyddio'r trydydd sector fod yn opsiwn rhad, a barn cyrff trydydd sector fod gwerth ychwanegol y sector drwy ansawdd a chyd-gynhyrchu, ac nid costau is;
- Y 'malltod cynllunio' yn deillio o'r drafodaeth am ailstrwythuro llywodraeth leol a'r tensiwn rhwng ffocws lleol y rhan fwyaf o Fyrddau Gwasanaethau Lleol a phwysigrwydd cynyddol yr agenda rhanbarthol.

Ond er y gall ffactorau allanol fod i gyfrif am lawer o'r anawsterau a wynebodd brosiect Creu'r Cysylltiadau, credwn hefyd fod dyluniad y prosiect yn wallus:

- Roedd diffyg cyfatebiaeth rhwng maint yr uchelgais a nodir yn y Cynllun Busnes ac adnoddau ac amserlenni'r prosiect. Hyd yn oed mewn amgylchiadau llawer mwy ffafriol, mae'n annhebygol y bu erioed yn realistig disgwyl i un swyddog cymharol isel o ran gradd mewn Cyngor Gwirfoddol Sirol i fedru darparu'r ystod o weithgareddau (a hyd yn oed fwy o ganlyniadau) a ragwelwyd;
- Er bod y ffocws ar recriwtio staff newydd i lenwi swydd Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn ddealladwy o safbwynt dangos 'ychwanegedd' y prosiect, nid oedd o reidrwydd yn cydnabod yn llawn i ba raddau yr oedd materion yn ymwneud â dyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed pan ddechreuodd y prosiect, yn rhan allweddol o waith Cynghorau Gwirfoddol Sirol a llawer o'u staff. Mae hyn wedi golygu, hyd yn oed lle mae Creu'r Cysylltiadau wedi gweithio'n dda, ei bod yn amhosibl gwahanu effeithiau'r prosiect oddi wrth effeithiau ehangach hyrwyddiad y Cyngor Gwirfoddol Sirol o'r agenda yma. Lle na weithiodd cystal, cafodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau hi'n anodd diffinio eu rôl ac mewn rhai achosion, ymddengys iddynt gael eu hymylu o fewn eu corff eu hunain.
- Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol rôl unigryw yn nhermau cynrychioli'r sector ar lefel leol, nid yw eu sefyllfa mewn unrhyw fodd yn un nad oes dadlau amdani. Yn

eironig, efallai, mae'r cyrff hynny sy'n gweithredu ar raddfa fwy, a all eisoes fod yn ymwneud llawer â dylanwadu ar syniadau comisiynwyr ar ddylunio gwasanaethau ac sydd eisoes mewn sefyllfa cymharol dda i sicrhau contractau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a gaiff eu tendro'n agored, yn tueddu i beidio ystyried fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn eu cynrychioli, a gallant yn wir eu gweld fel cystadleuwyr;

- Gellir gofyn cwestiynau am ffocws y prosiwct fel model brig-i-lawr o gynyddu ymgysylltiad y trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, yn neilltuol o gofio'r safbwynt (yr ymddengys y caiff ei fynegi yn y Papur Gwyn diweddar ar Lywodraeth Leol) fod awdurdodau lleol yn neilltuol, ar y lefel uchaf, yn gwrthwynebu'r math o newid diwylliannol sydd ei angen i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Gellid dadlau fod angen dull mwy cydweithiol o weithio o'r gwaelod i fyny;
- Yn nhermau proses, ymddengys y dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a ddefnyddiwyd yn anhyblyg ac wedi golygu llawer iawn o waith.

Wrth droi at ein hargymhellion, mae'n bwysig cydnabod fod y Papur Gwyn Llywodraeth Leol yn cyflwyno llawer o gyfleoedd a heriau newydd i'r trydydd sector - cyfleoedd a heriau a fydd angen adnoddau. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r ffaith ei bod yn annhebyg iawn y bydd prosiect a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn dilyn Creu'r Cysylltiadau, gan nad yw Rhaglenni newydd y Gronfa ar gyfer 2014-2020 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymyriadau i gefnogi diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Rydym felly'n argymell:

**Argymhelliad 1:** Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Cynghorau Gwirfoddol Sirol i flaenoriaethu eu gwaith ar ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n debyg y caiff hyn ei gyflawni'n fwy effeithlon drwy sicrhau fod adnoddau ar gael yn glir o fewn y Grant Seilwaith i gefnogi'r gwaith hwn a drwy sicrhau bod Cynghorau

Gwirfoddol Sirol yn ymarferol yn rhoi blaenoriaeth briodol i'r rôl. Mae angen i Gynghorau Gwirfoddol Sirol gael yr hyblygrwydd i ddefnyddio adnoddau staff yn y ffordd sy'n ymddangos yn fwyaf addas iddynt a ble bynnag sy'n bosibl eu bod yn cyflogi staff sy'n gweithio ar y materion hyn ar gontractau parhaol neu hirdymor.

**Argymhelliad 2:** Wrth symud ymlaen â'i ymateb i'r Comisiwn a'i Bapur Gwyn ar Lywodraeth Leol, dylai Llywodraeth Cymru gydnabod barn y sector am y cynnydd cyfyngedig a wnaed yn nhermau'r agenda yma ac ystyried pa fesurau eraill y gellir eu cymryd i gymell awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i ymgysylltu mwy, yn arbennig o gofio am effaith pwysau ar gyllidebau. Yng ngoleuni ei gynigion am fwy o ffocws ar weithio cymunedol neu gymdogaeth, mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'r WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r trydydd sector yn fwy cyffredinol mewn trafodaeth fwy sylfaenol ar y cydbwysedd rhwng dulliau o'r brig i lawr a'r gwaelod i fyny i gynyddu ymgysylltiad y sector mewn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus er mwyn egluro'r ffordd orau i ddefnyddio adnoddau o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

**Argymhelliad 3:** Dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol (gyda chefnogaeth y WCVA lle bo angen) adolygu rolau a chyfrifoldebau eu staff presennol i ddynodi bylchau amlwg (yn dilyn Creu'r Cysylltiadau) o ran sicrhau gwasanaeth digonol i is-grwpiau allweddol y Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau eraill. Gan ddefnyddio arfer da a ddatblygwyd drwy'r prosiect (yn neilltuol mewn un ardal astudiaeth achos) i gefnogi cynrychiolwyr trydydd sector i adrodd yn ôl, dylent ystyried i ba raddau y gellir defnyddio cynrychiolaeth o'r sector ehangach (h.y. tu allan i staff Cynghorau Gwirfoddol Sirol) i sicrhau cwmpas llawn.

**Argymhelliad 4:** Lle bynnag sy'n bosibl, dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol ddefnyddio'r cyfleoedd a gyflwynwyd fel canlyniad i'r gwaith ar uno cronfeydd data Info-Engine a GAVO Connections i wella eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o'r trydydd sector o fewn eu hardaloedd.

**Argymhelliad 5:** Dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol barhau i gynnig hyfforddiant a meithrin gallu yn ymwneud â thendro i sefydliadau sy'n aelodau fel rhan o'u cynnig hyfforddiant creiddiol, gan gronni adnoddau lle bynnag sy'n bosibl, a gyda ffocws cryf yn parhau ar sicrhau cydweithredu.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r WCVA ystyried p'un ai, ac os felly, sut, y gellir sicrhau mwy o ymgysylltu gyda chyrff mwy yn y thrydydd sector i ddefnyddio eu mewnbwn i feddwl am ddyluniad gwasanaethau ac i sicrhau negeseuon cyson o'r sector ehangach i gomisiynwyr sector cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn gall y WCVA fod am ddymuno syniad Cod Ymarfer ar gyfer is-gontractio o fewn y sector.

**Argymhelliad 7:** Er yn cydnabod ei fod eisoes wedi buddsoddi gwaith sylweddol yn nhermau gwella caffaeliad, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau fod pob corff cyhoeddus wedi ac yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau clir ar arfer da mewn caffaeliad, yn cynnwys yng nghyswllt y canfyddiad fod gwrthdaro posibl mewn diddordebau yn ei gwneud yn amhriodol i'r trydydd sector fod â mewnbwn wrth ddylunio gwasanaethau. Lle bynnag sy'n bosibl, dylid annog cyrff sector cyhoeddus i gyhoeddi cynlluniau comisiynu blynyddol, yn amlygu cyfleoedd tendro sy'n debygol o fod yn yr arfaeth.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd i sicrhau mwy o gydymffurfiaeth ar ran pob corff cyhoeddus gyda'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.